



Ministry
of Justice



Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Canllawiau ar ddefnyddio Gorchmynion Atgyfeirio

Hydref 2018



Ministry
of Justice



Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Canllawiau ar ddefnyddio Gorchmynion Atgyfeirio

Cynnwys

Geirfa	2.
1. Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
2. Gwneud Gorchmynion Atgyfeirio yn y llys	Error! Bookmark not defined.
3. Trosolwg o'r broses ynglŷn â Gorchmynion Atgyfeirio	Error! Bookmark not defined.
4. Rolau a chyfrifoldebau	Error! Bookmark not defined.
5. Recriwtio, hyfforddi a chynorthwyo aelodau gwirfoddol o banelau	Error! Bookmark not defined.
6. Ymgysylltu â dioddefwyr	Error! Bookmark not defined.
7. Asesu plant	Error! Bookmark not defined.
8. Cyfarfodydd cychwynnol y panel	Error! Bookmark not defined.
9. Monitro cydymffurfiaeth, amrywio a dirymu gorchmynion	48.
10. Cyfarfodydd terfynol	55.

Geirfa

Adfer – gwneud iawn i'r rheini sydd wedi cael niwed drwy drosedd.

Adroddiad cyn dedfrydu (ACD) – adroddiad y mae'r llys yn gofyn i'r TTI ei baratoi i'w helpu i ddewis y ddedfryd fwyaf addas i ddelio â'r plentyn. Bydd disgwyl i'r ACD gynnwys asesiad o natur a difrifoldeb y trosedd, a'i effaith ar y dioddefwr.¹

Aelodau gwirfoddol o'r panel – gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am bennu Gorchmynion Atgyfeirio.

Asset Plus – fframwaith sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid (BCI) i'w ddefnyddio gan ymarferwyr cyfiawnder ieuentid i asesu plant sydd wedi troseddu ac i gynllunio ymyriadau.

Contract Gorchmyn Atgyfeirio, "contract" – y telerau y mae'r panel troseddwyr ifanc yn eu trafod a'u cytuno sy'n cyfateb i ddedfryd y mae'n rhaid i'r plentyn lynu wrthi.

Cydgynhyrchu – ffordd o weithio lle mae defnyddwyr gwasanaethau, y teulu neu ofalwyr a darparwyr gwasanaethau yn cydweithio i greu penderfyniad neu wasanaeth sy'n gweithio i bob un ohonynt. Mae'n ddull o weithredu wedi'i seilio ar werthoedd ac ar yr egwyddor mai'r rheini sy'n defnyddio gwasanaeth sydd yn y lle gorau i helpu i'w lunio. Mae'r Sefydliad er Rhagoriaeth ym maes Gofal Cymdeithasol (SCIE) yn nodi bod [pedair egwyddor cydraddoldeb, amrywiaeth, hygyrchedd a chyfatebiaeth](#) yn werthoedd hanfodol ar gyfer cyflawni cydgynhyrchu.

Cydllynydd Gorchmynion Atgyfeirio – cynrychiolydd y TTI sy'n gyfrifol am helpu'r panel troseddwyr ifanc i lunio Gorchmynion Atgyfeirio. Mae'r rolau'n amrywio rhwng TTlau ond mae cynghorwyr yn darparu gwybodaeth i aelodau panelau ac yn sicrhau bod partneriaethau effeithiol yn bodoli rhwng y panel a'r TTI.

Cyfarfod cychwynnol y panel troseddwyr ifanc (cyfarfod o'r panel) – y cyfarfod cyntaf rhwng y plentyn a'r ddau aelod gwirfoddol o'r panel i ystyried a chytuno ar gynnwys y Gorchmyn Atgyfeirio. Mae'n fwriad i gyfarfodydd o'r panel fod yn llai ffurfiol na'r llys, er mwyn cymell y plentyn i gymryd mwy o ran yn y drafodaeth am ei droseddu ac i gymryd rhan mewn negodi contract.

Cyfarfod cynnydd – cyfarfodydd a gynhelir wedyn rhwng y panel troseddwyr ifanc a'r plentyn i asesu a thrafod y cydymffurfio â'r gorchmyn. Bydd amllder y cyfarfodydd cynnydd yn amrywio rhwng y naill achos a'r llall.

Cynghorydd panel – cynrychiolydd o'r tîm troseddau ieuentid (TTI) sy'n gyfrifol am helpu'r panel troseddwyr ifanc i lunio Gorchmynion Atgyfeirio. Mae cynghorwyr yn darparu gwybodaeth i aelodau'r panel ac yn sicrhau bod partneriaethau effeithiol yn bodoli rhwng y panel a'r TTI. Yn aml bydd cydlynwyr Gorchmynion Atgyfeirio neu reolwyr achosion TTI yn cyflawni rôl y cynghorydd panel.

¹ A58 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003

Dioddefwr – person y mae trosedd yn effeithio arno.

Dirymu – cyngor gan y panel i'r TTI i argymhell iddo wneud cais i'r llys am derfynu'r Gorchmyn Atgyfeirio yn gynharach na'r dyddiad a bennwyd wrth wneud y gorchmyn.

Gorchmyn Atgyfeirio – gorchmyn statudol sy'n cael ei weithredu yn y gymuned lle mae'r llys yn 'atgyfeirio' achos y plentyn i banel troseddwr ifanc sy'n cael ei alw gan aelodau gwirfoddol o'r gymuned ac yn cael ei gynnal mewn man cyfarfod anffurfiol. Bydd y panel ynghyd â'r plentyn yn cytuno ar gontract gwaith y bydd disgwyl i'r plentyn gydymffurfio ag ef. Rhoddir pwyslais neilltuol ar gyfiawnder adferol. Bydd y panel yn adolygu cydymffurfiaeth â'r contract yn rheolaidd. Cyflwynwyd y Gorchmyn Atgyfeirio yn Neddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (ac mae darpariaeth ar ei gyfer nawr yn Neddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000), a hwn yw'r gorchmyn i'w weithredu yn y gymuned a ddefnyddir amlaf gan y llysoedd wrth ddelio â rhai 10 i 17 blwydd oed, yn enwedig ar gyfer troseddwr tro cyntaf sy'n pledio'n euog.

Gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr – mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu grantiau i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i gomisiynu gwasanaethau i ddiodefwyr ar gyfer eu hardal leol. Mae hyn yn cynnwys darparu ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder adferol. O dan delerau eu grant mae'n ofynnol iddynt ddarparu proses atgyfeirio cychwynol ar gyfer diodefwyr fel y gallant gael gwasanaethau cymorth sy'n diwallu eu hanghenion emosiynol ac ymarferol.

Gwneud iawn – gwneud iawn yn ymarferol i'r rheini a gafodd niwed drwy drosedd neu i'r gymuned ehangach. Mae gwneud iawn yn gallu cynnwys esboniad, ymddiheuriad geiriol neu ysgrifenedig, atgyweirio difrod i eiddo'n uniongyrchol, rhodd, a gwneud iawn yn ymarferol, yn cynnwys digolledu ariannol, am y niwed a achoswyd.

Llys – y man lle mae achosion cyfreithiol yn digwydd.

Llys dedfrydu – llys sy'n gorfodi penderfyniad dedfrydu.

Panel troseddwr ifanc, "panel Gorchmynion Atgyfeirio", "panel" – dau wirfoddolwr o'r ardal leol a fydd yn cwrdd â'r plentyn sydd wedi troseddu (a rhieni neu ofalwyr lle y bo'n berthnasol), ac yn hwyluso proses adferol. Pwrpas y broses hon yw rhoi'r gallu i drafod a chytuno ar gontract a fydd yn diffinio'r gweithgarwch yn ystod cyfnod y Gorchmyn Atgyfeirio. Bydd un aelod o'r panel yn gweithredu fel arweinydd y panel. Mae'r panel hefyd yn cynnwys cynrychiolydd o'r TTI sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Proses adferol – dod â'r rheini sydd wedi'u niweidio gan drosedd neu wrthdaro at ei gilydd gyda'r rheini sy'n gyfrifol am y niwed er mwyn cyfathrebu, gan alluogi pawb y mae digwyddiad wedi effeithio arnynt i chwarae rhan mewn unioni'r cam a dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen.² Nid yw rhaglenni sy'n cynnwys diodefwyr 'dirprwyol', h.y. diodefwyr trosedd tebyg, neu'n cyflwyno egwyddorion cyfiawnder adferol i 'droseddwr' yn gyson â diffiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o

² <https://restorativejustice.org.uk/what-restorative-justice>

gyfiawnder adferol. Er hynny, fe all rhaglenni o'r fath fod yn ffordd ddefnyddiol i baratoi 'troseddwyr' i gymryd rhan mewn cyfiawnder adferol.

Tîm Troseddau Ieuencid (TTI) – tîm amlasiantaethol a sefydlir gan awdurdod lleol drwy gydweithredu â phartneriaid statudol i weithio gyda phlant sydd mewn perygl o droseddu, sydd wedi troseddu neu yr honnir eu bod wedi troseddu. O dan delerau Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mae'n ofynnol bod TTlau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg a gallant gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill hefyd.

Toriad – gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan y plentyn sy'n groes i'r gofynion mewn gorchymyn llys troseddol sy'n uwch na throthwy a gytunwyd. Y canlyniad i weithredu o'r fath fydd atgyfeirio'r plentyn yn ôl i'r llys ar gyfer gweithredu posibl ar y toriad gan y llys.

Trothwy carcharu – achosion lle mae'r llys wedi nodi bod dedfrydu i'r ddalfa yn cael ei ystyried am y trosedd. Ar gyfer achosion tro cyntaf lle plediwyd yn euog, Gorchymyn Atgyfeirio yw'r unig ddewis sydd ar gael yn lle'r ddalfa.

Ymyriadau, "ymyriadau rhaglen" – gweithgareddau sy'n cael eu pennu, eu negodi a'u cytuno yn rhan o Orchymyn Atgyfeirio i helpu'r plentyn i ddechrau byw bywyd diogel heb droseddu ac i gyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Canllawiau hyn wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer timau troseddau ieuenctid (TTlau) ac aelodau o baneli troseddwr ifanc ac maent wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r argymhellion sy'n codi o arolygiad thematig Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi³ a'r **Adolygiad o'r System Cyfiawnder Ieuenctid**⁴ gan Charlie Taylor yn ogystal â'r canfyddiadau yn adolygiad Lammy o'r driniaeth a'r canlyniadau a brofir gan unigolion Du, Asiaidd a rhai o gefndir Ethnig Lleiafrifol yn y System Cyfiawnder Troseddol⁵ a dynnodd sylw at y ffaith bod niferoedd anghyfartal o blant Du, Asiaidd a rhai o gefndir Ethnig Lleiafrifol yn y system cyfiawnder ieuenctid, sy'n fater rydym wedi ymrwymo i roi sylw iddo.
- 1.2 Cyflwynwyd y Gorchymyn Atgyfeirio gan Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, a darperir ar ei gyfer nawr yn Neddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000. Mae'n ddedfryd unigryw wedi'i seilio ar egwyddorion **adfer, gwneud iawn ac ailintegreiddio**.
- 1.3 Mae Gorchmynion Atgyfeirio yn cynnwys y gymuned leol yn uniongyrchol, drwy aelodau gwirfoddol o banelau troseddwr ifanc a thrwy gael budd o gamau i wneud iawn. Mae panelau troseddwr ifanc yn cynnal cyfarfodydd yn unol ag egwyddorion ac ymarfer adferol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi plant i adnabod canlyniadau eu troseddau a derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Cytunir ar 'gcontract' rhwng y plentyn a'r panel troseddwr ifanc. Bydd y contract yn cynnwys nifer o wahanol nodau a gweithgareddau sydd â'r amcan o helpu'r plentyn i ddechrau byw bywyd diogel heb droseddu ac chyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas. Bydd ymyriadau adferol yn chwarae rhan hanfodol drwy gynnwys y rheini a gafodd niwed o ganlyniad i droseddu'r plentyn. Bydd cynnydd y plentyn ar gyflawni'r contract yn cael ei fonitro gan y panel troseddwr ifanc drwy gynnal cyfarfodydd adolygu.
- 1.4 Mae sicrhau bod llais y dioddefwr yn cael ei glywed yn hanfodol i'r Gorchymyn Atgyfeirio. Bydd dioddefwr yn cael cyfle, os ydynt yn dymuno, i ddweud sut mae'r trosedd wedi effeithio arnynt. Gallant ofyn cwestiynau hefyd, a gofyn am sicrwydd na fyddant yn cael eu targedu eto gan y plentyn a chael esboniad a/neu ymddiheuriad.
- 1.5 Gellir trafod hefyd sut bydd y plentyn yn gallu gwneud iawn yn ymarferol am y niwed a achoswyd. Os cytunir ar y gweithgarwch hwn, gellir ei gynnwys yn y contract.
- 1.6 Yn yr un modd â gorchmynion llys eraill, mae'r Gorchymyn Atgyfeirio yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol helpu'r plentyn i hwyluso ei daith i ddyfodol sy'n gadarnhaol ac yn rhydd o droseddu. Enghreifftiau o gymorth o'r fath yw

³ https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2016/07/Report-Referral-orders-do-they-achieve-their-potential-_W_.pdf

⁴ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/608502/moj-review-of-the-youth-justice-system-welsh-print.PDF

⁵ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/643550/Adroddiad_LAMMY_cymraeg.pdf (Argymhellion 18 a 19)

ailintegreiddio'r plentyn ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth neu weithio i ddatrys gwrthdaro yn ei deulu neu ei gymuned. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cael ei gynnwys yn y contract a gytunir gan y panel.

- 1.7 Wrth adolygu'r canllawiau, rydym wedi ceisio canolbwyntio lle'r oedd modd ar yr egwyddorion sylfaenol o adfer, gwneud iawn ac ailintegreiddio yn hytrach na phrosesau'n unig. Rydym wedi dileu cyfarwyddiadau diangen er mwyn cymell ymarferwyr i ymateb i anghenion penodol y plentyn a'r dioddefwr ym mhob achos. Wrth wneud hynny, ein gobaith yw annog defnyddio disgresiwn proffesiynol a sicrhau bod y plentyn yn ganolog i'r drefn. Drwy wneud hynny, rydym yn credu y byddwn yn gallu gwella'r ffordd y cyflenwir Gorchmynion Atgyfeirio, lleihau ailadrodd yr un ymddygiad a hyrwyddo canlyniadau cyffredinol gwell i blant, ac i unigolion a chymunedau sy'n cael eu niweidio gan droseddu.

2. Gwneud Gorchmynion Atgyfeirio yn y llys

Mae'r bennod hon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Ble mae Gorchmynion Atgyfeirio ar gael
- Ystyriaethau cyn dedfrydu
- Amgylchiadau lle mae'r llys yn gorfod gwneud Gorchmynion Atgyfeirio
- Amgylchiadau lle gall y llys wneud Gorchmynion Atgyfeirio ar sail disgresiwn
- Adroddiadau cyn dedfrydu (ACDau)
- ACDau lle cyrhaeddir y trothwy carcharu
- Effaith gwneud Gorchmynion Atgyfeirio ar bwerau dedfrydu eraill y llysoedd
- Pennu cyfnodau gorchmynion
- Gorchmynion i rieni fod yn bresennol
- Fformat y Gorchmynion Atgyfeirio
- Euogfarnau wedi'u disbyddu o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974

3. Trosolwg o'r broses ynglŷn â defnyddio Gorchymynion Atgyfeirio

- 3.1 Lle mae plentyn gerbron llys wedi'i gyhuddo o drosedd am y tro cyntaf ac yn pledio'n euog, yn y rhan fwyaf o achosion rhaid i'r llys osod Gorchymyn Atgyfeirio (gweler **3.8**). Gellir gosod Gorchymyn Atgyfeirio hefyd mewn achosion eraill ar sail disgresiwn (gweler **3.9**).
- 3.2 Ar ôl dedfrydu, os nad yw asesiad ar gael eisoes, bydd y TTI yn asesu'r plentyn. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer drafftio adroddiad i banel troseddwy'r ifanc, yn darparu gwybodaeth allweddol am y plentyn a dadansoddiad o'i ymddygiad troseddol.
- 3.3 Wedyn bydd panel troseddwy'r ifanc (panel) yn cael ei alw a fydd yn cynnwys dau wirfoddolwr o'r gymuned leol sydd wedi cael hyfforddiant priodol ac aelod o'r TTI a fydd yn gweithredu fel cynghorydd. Bydd yn ofynnol i'r plentyn a'i riant/gofalwr (os yw'r plentyn o dan 16 mlwydd oed) fod yn bresennol yng nghyfarfod y panel hwn. Bydd yr adroddiad a luniwyd gan y TTI yn sail i drafodaeth y panel.
- 3.4 Cysylltir â dioddefwyr trosedd(au) y plentyn. Dylid cynnig gwybodaeth i'r dioddefwr am y Gorchymyn Atgyfeirio ac ymgynghori ag ef ynghylch ei ddymuniadau a'i wahodd i gymryd rhan mewn proses adferol. Os bydd yn dymuno gwneud hynny ac ar ôl cael cydsyniad ar sail gwybodaeth, gallai hyn gynnwys bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel, cymryd rhan mewn cyfryngu rhwng y dioddefwr a'r troseddwr y tu allan i broses y panel, cyflwyno ei sylwadau i'r panel, neu gael iawn neu gyfryngu yn ôl ac ymlaen rhwng y dioddefwr a'r troseddwr. Hefyd gofynnir am farn dioddefwyr am ffyrdd posibl o wneud iawn am y niwed a achoswyd gan y trosedd. Bydd y farn hon yn cael ei hystyried os ceir ymyriad wedyn. Dylid ymgynghori â dioddefwyr hefyd ynghylch pa wybodaeth neu ddiweddariadau yr hoffent eu cael yn ystod cyfnod y gorchymyn. Gellir trafod hyn â'r plentyn wedyn a dod i gytundeb.
- 3.5 Mae rolau gwahanol gan aelodau gwirfoddol y panel a'r aelod o'r TTI. Aelodau gwirfoddol y panel a ddylai arwain yng nghyfarfod y panel a bydd un ohonynt yn ei gadeirio; bydd cynghorydd y panel o'r TTI yn darparu cyngor a gwybodaeth gefndir i aelodau gwirfoddol y panel troseddwy'r ifanc.
- 3.6 Bydd y panel yn adolygu'r trosedd a'i ganlyniadau a bydd yr holl bartïon yn cytuno ar contract y bydd yn rhaid i'r plentyn gydymffurfio ag ef. Dylai'r contract gynnwys dwy elfen graidd:
- camau i wneud iawn i'r dioddefwr a/neu'r gymuned ehangach;
 - rhaglen o ymyriadau/gweithgareddau i gyrraedd nodau sy'n helpu'r plentyn i symud ymlaen i ddechrau byw bywyd cadarnhaol a chynhyrchiol.
- 3.7 O dan delerau'r Gorchymyn Atgyfeirio bydd cynnydd y plentyn a'i gydymffurfiaeth â'r contract yn cael eu monitro gan y panel a fydd yn cynnal cyfarfodydd adolygu rheolaidd lle bydd y plentyn (a riant/gofalwr lle y bo'n briodol) yn bresennol. Ar ddiwedd cyfnod y Gorchymyn Atgyfeirio, bydd yr euogfarn wedi'i disbyddu (gweler **3.42–3.47** am esboniad manylach o euogfarnau wedi'u disbyddu). Os bydd y plentyn yn methu â chydymffurfio neu os bydd y plentyn yn gwrthod cytuno ar

gontract, gall y panel atgyfeirio achos y plentyn yn ôl i'r llys a fydd â phŵer wedyn i ddirymu'r Gorchymyn Atgyfeirio ac ailddedfrydu am y trosedd gwreiddiol.

Ble mae Gorchymynion Atgyfeirio ar gael

- 3.8 Mae'r Gorchymyn Atgyfeirio ar gael fel opsiwn dedfrydu yn y llys ieuencid, y llys ynadon ar gyfer oedolion ac, mewn rhai amgylchiadau, yn Llys y Goron.
- 3.9 Mae Gorchymynion Atgyfeirio ar gael lle mae barnwr Llys y Goron yn eistedd mewn llys ynadon o dan adran 66 o Ddeddf Llysoedd 2003. Mae'r Gorchymyn Atgyfeirio ar gael hefyd fel opsiwn dedfrydu pan fydd Llys y Goron yn delio ag apêl oherwydd, wrth gyflawni'r swyddogaeth honno, bydd pwerau dedfrydu'r Llys yr un fath â'r holl bwerau dedfrydu sydd gan y llys is, drwy adran 48(4) o Ddeddf Uwchlysoedd 1981.⁶
- 3.10 Mae adrannau 18(1)(a) a (2) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 yn ei gwneud yn ofynnol bod y llys yn pennu mai'r TTI yn ardal cartref y plentyn fydd yn gyfrifol am weithredu'r gorchymyn. Lle mae plentyn wedi'i gael yn euog gan lys y tu allan i ardal ei gartref, mae hyn yn osgoi oedi a chostau diangen o orfod ailgyfeirio'r achos gan y llys lle rhoddwyd yr euogfarn i ardal arall ar gyfer gwrandawriad ychwanegol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd hefyd yn ddymunol i'r llys gydgyssylltu â'r TTI yn ardal cartref y plentyn fel y gellir rhoi cyfarwyddiadau adrodd i'r plentyn cyn iddo adael y llys.
- 3.11 Os yw plentyn yn cael ei ddedfrydu gydag oedolion mewn llys ynadon oedolion a bod y posibilrwydd o wneud Gorchymyn Atgyfeirio yn cael ei ystyried, argymhellir bod ynad llys ieuencid yn cael ei gynnwys ar y fainc.

Ystyriaethau cyn dedfrydu

- 3.12 Gorchymyn Atgyfeirio yw'r prif benderfyniad dedfrydu mewn achosion lle mae'r plentyn yn pledio'n euog ac yn cael euogfarn am y tro cyntaf am drosedd carcharadwy. Er hynny, ni fydd yn briodol ym mhob achos (gweler amodau gorfodol a disgresiynol yn 3.14–3.16 isod).
- 3.13 Mae'r gallu i'w ddefnyddio wedi'i gyfyngu i beidio â chynnwys troseddau y mae'r ddedfryd amdanynt wedi'i phennu mewn cyfraith. Un enghraifft yw dedfryd o Gadw yn ôl Ewyllys Ei Mawrhydi o dan adran 90 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 lle mae plentyn wedi'i gael yn euog o lofruddiaeth a dedfrydau gorfodol o garchar am oes. Mae gwneud Gorchymyn Atgyfeirio wedi'i ragwahardd os yw'r llys yn bwriadu gosod dedfryd o garchar, gorchymyn ysbyty neu ryddhad amodol neu ddiamod.

Amgylchiadau lle mae'r llys yn gorfod gwneud Gorchymyn Atgyfeirio

- 3.14 Bydd yn ofynnol i'r llys wneud Gorchymyn Atgyfeirio yn yr amgylchiadau canlynol:
- a) lle nad yw'r plentyn wedi'i gael yn euog o drosedd o'r blaen; a

⁶ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/54/section/48>

- b) lle mae'r plentyn yn pledio'n euog i drosedd carcharadwy (ac unrhyw droseddau cysylltiedig),

oni bai fod y ddedfryd wedi'i phennu mewn cyfraith neu fod y llys yn bwriadu rhoi dedfryd o garchar i'r plentyn, ei ryddhau'n amodol neu'n ddiamed neu wneud gorchmyn ysbyty.

Amgylchiadau lle gall y llys wneud Gorchmyn Atgyfeirio ar sail disgrisiwn

3.15 Gall y llys wneud Gorchmyn Atgyfeirio o dan adran 17 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, lle nad yw'r amodau sy'n ei orfodi i wneud Gorchmyn Atgyfeirio wedi'u bodloni ond lle mae'r plentyn yn pledio'n euog i drosedd **neu** o leiaf un o unrhyw droseddau cysylltiedig sy'n cael eu trafod.⁷ Mae canllawiau'r Cyngor Dedfrydu yn nodi y dylid ystyried gwneud ail Orchymyn Atgyfeirio neu Orchymyn Atgyfeirio dilynol yn yr achosion hynny:

- a) lle nad yw'r trosedd yn ddigon difrifol i wneud Gorchmyn Adsefydlu Ieuentid ond lle mae'n ymddangos bod ar y plentyn angen rhyw fath o ymyriad; NEU
- b) lle mae'r trosedd yn ddigon difrifol i wneud Gorchmyn Adsefydlu Ieuentid ond lle teimlir mai Gorchmyn Atgyfeirio fydd y ffordd orau i atal rhagor o droseddu (er enghraifft, am fod y plentyn wedi ymateb yn dda yn y gorffennol i orchymyn o'r fath a bod y trosedd sydd o flaen y llys nawr yn annhebyg i'r trosedd y gosodwyd Gorchmyn Atgyfeirio amdano o'r blaen).⁸

3.16 **Nid yw** Gorchmyn Atgyfeirio ar gael os cafwyd ple dieuog (heb ble euog cysylltiedig mewn perthynas ag o leiaf un o unrhyw droseddau cysylltiedig).

Adroddiadau cyn dedfrydu (ACDau)

3.17 Gall y llys ofyn am ACD i'w ystyried wrth benderfynu ar ddedfrydu plentyn. Adroddiad sy'n cael ei baratoi gan y TTI yw hwn sy'n darparu dadansoddiad o'r trosedd; gwybodaeth am y plentyn a'i amgylchiadau ac asesiad o risg. Mae'n trafod yr opsiynau dedfrydu sydd ar gael ac yn gwneud argymhellid. Hefyd gellir cynnwys gwybodaeth yn yr ACD am ddymuniadau'r dioddefwr neu ddiodefwyr i gymryd rhan mewn proses adferol.

3.18 Mae'n ofynnol cael ACD ym mhob achos sy'n cyrraedd y 'trothwy carcharu'. Mae'r trothwy carcharu yn cyfeirio at yr achosion hynny lle mae'r llys wedi nodi bod carcharu'n cael ei ystyried fel opsiwn dedfrydu. (Mae'n bwysig nodi mai'r unig opsiynau dedfrydu a fydd ar gael os yw plentyn yn pledio'n euog ac os yw'n cael ei ddedfrydu gan y llys am y tro cyntaf fydd Gorchmyn Atgyfeirio neu ddedfryd o garchar.)

3.19 Mewn amgylchiadau eraill, lle **nad yw'r** amodau sy'n gorfodi'r llys i wneud Gorchmyn Atgyfeirio wedi'u bodloni, gellir gofyn am ACD hefyd i'w ystyried ar gyfer dedfrydu. Mewn achosion o'r fath, bydd y dewis o opsiynau dedfrydu sydd ar gael

⁷ I ddibenion y ddarpariaeth hon, y diffiniad o droseddau cysylltiedig yw unrhyw drosedd arall y mae'r llys yn delio â'r plentyn neu berson ifanc mewn cysylltiad ag ef yr un pryd, pa un a geir ef yn euog o'r troseddau yr un pryd neu gan neu gerbron yr un llys.

⁸ Paragraff 6.20 o'r Canllaw Diffiniol ar Ddedfrydu Plant a Phobl Ifanc.

yn fwy eang, ac fe all gynnwys dedfryd o garchar. Os yw'r opsiwn o ddedfryd o garchar ar gael ac os yw'n ddewis ymarferol, bydd yr achos hefyd yn cael ei weld yn un sy'n cyrraedd y trothwy carcharu a dylid gofyn am ACD.

- 3.20 Mewn achosion lle mae'r amodau sy'n gorfodi'r llys i wneud Gorchymyn Atgyfeirio **wedi'u bodloni** ac **nad yw** dedfryd o garchar yn cael ei hystyried, nid yw'n debygol y gofynnir am ADC. Er hynny, dylai'r TTI fod yn barod i ddarparu gwybodaeth ar lafar i'r llys os gofynnir amdani.
- 3.21 Mae'n bwysig bod y panel yn cael holl ffeithiau'r trosedd. Mae Gwasanaeth Erllyn y Goron wedi cytuno y bydd yn darparu gwybodaeth am y trosedd/euogfarnau blaenorol i TTIau pryd bynnag y gwneir Gorchymyn Atgyfeirio. Bydd y TTI yn ystyried yr wybodaeth hon wrth asesu'r plentyn ac wrth lunio ei adroddiad ar gyfer cyfarfod cychwynnol y panel troseddwr ifanc.

ACDau lle cyrhaeddir y trothwy carcharu

- 3.22 Mewn achosion lle mae dedfryd o garchar yn opsiwn dichonol, dylai'r TTI sicrhau bod yr ACD yn dangos bod Gorchymyn Atgyfeirio yn opsiwn effeithiol a dibynadwy ar gyfer dedfrydu. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at **gontract Gorchymyn Atgyfeirio dwys**.
- 3.23 Er mwyn cyflwyno contract o'r fath i'r llys, dylai'r TTI ystyried galw 'panel cyn dedfrydu' anffurfiol a fydd yn cynnwys y plentyn, ei riant/gofalwr, aelodau gwirfoddol y panel ac aelod y panel o'r TTI. Yn y cyfarfod hwn, dylid ystyried cynnwys tebygol y contract Gorchymyn Atgyfeirio dwys a'r cynnig a gyflwynir yn yr ACD. Wedyn dylid pennu dyddiad dros dro ar gyfer cynnal cyfarfod ffurfiol cychwynnol y panel mor fuan â phosibl ar ôl dedfrydu.
- 3.24 Dylai contract Gorchymyn Atgyfeirio dwys gynnwys amserlen o weithgareddau strwythuredig ar gyfer pob wythnos sy'n adlewyrchu natur ddifrifol y trosedd. (Gweler y Dull Graddedig.)⁹ **Gall** y gweithgareddau hyn gynnwys:
- addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth
 - ymwybyddiaeth o ddioddefwyr
 - gwneud iawn i'r gymuned
 - prosesau adferol (gall hyn gynnwys ysgrifennu llythyr i egluro neu ymddiheuro, cyfryngu yn ôl ac ymlaen rhwng y dioddefwr a'r troseddwr (trosglwyddo negeseuon rhwng y plentyn a'r dioddefwr/dioddefwyr), ymyriadau adferol uniongyrchol yn cynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb â'r dioddefwr a/neu drwsio difrod a achoswyd yn ystod y trosedd¹⁰)
 - gwaith i ymdrin â'r meddyliau ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu'r plentyn

⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/youth-justice-the-scaled-approach>

¹⁰ Bydd y dioddefwr yn cymryd rhan mewn prosesau adferol ar sail wirfoddol bob amser a gall newid ei feddwl ar unrhyw adeg. Felly, rhaid i eiriad y contract fod yn benagored, er enghraifft: "Gall y plentyn gael cyfle i glywed am effaith ei weithredoedd ac ystyried beth all ei wneud i roi sylw i'r niwed y mae wedi'i achosi drwy gyfathrebu â'r dioddefwr, yn ôl dymuniadau'r dioddefwr".

- cymorth gan y teulu, lle y bo'n briodol
- sgiliau rhyngpersonol (gwaith sy'n hybu'r ffactorau sy'n cynyddu cydnerthedd ac ymatal)
- dylid cynnwys cyrffiw hefyd, er na ellir monitro hyn yn electronig o dan ddeddfwriaeth y Gorchymyn Atgyfeirio

3.25 Pan fydd y llys yn gwneud Gorchymyn Atgyfeirio dwys, dylid tynnu sylw yn adroddiad y TTI i gyfarfod cychwynnol y panel ar ôl dedfrydu at y contract drafft sydd yn yr ACD. Mae'n bwysig bod yr adroddiad i'r panel yn adlewyrchu unrhyw sylwadau a wnaeth y llys wrth wneud y Gorchymyn Atgyfeirio, yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau at yr hyn y gall y panel ei gynnwys yn y contract. Fodd bynnag, mae'r panel troseddwy'r ifanc yn cadw'r hawl i benderfynu ar gynnwys y contract gyda'r plentyn a'i riant/gofalwr ar ôl dedfrydu. Yn ddamcaniaethol, fe all y contract fod yn wahanol i'r un sydd yn yr ACD a gyflwynwyd i'r llys.

3.26 Dylid galw cyfarfod cychwynnol o'r panel mor fuan â phosibl ar ôl dedfrydu a dylai'r contract gychwyn wedyn yn ddiymdroi.

3.27 Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r plentyn a'i rieni/gofalwyr ddeall yn glir nad yw cynnal cyfarfod o banel cyn dedfrydu yn creu rhagdybiaeth o ran beth fydd y ddedfryd debygol. Fodd bynnag, mae cyfarfod o'r fath yn rhoi cyfle i gyflwyno opsiwn dedfrydu effeithiol i'r llys fel dewis yn lle dedfryd o garchar. Mae'r llys yn llwyr gyfrifol am y penderfyniad dedfrydu a **gellir** rhoi dedfryd o garchar o hyd. Lle na ellir galw cyfarfod o banel cyn dedfrydu, dylai'r TTI ystyried cynnwys amlinelliad yn y cynnig yn yr adroddiad (ar sail yr asesiad Asset Plus) o'r meysydd y bydd y TTI yn eu cyflwyno i'w hystyried gan y panel troseddwy'r ifanc wrth benderfynu ar gontract Gorchymyn Atgyfeirio dwys. Dylai TTlau ystyried comisiynu adnoddau tebyg i'r rheini sydd ar gael ar gyfer dedfrydau cymunedol eraill mewn achosion sy'n cyrraedd y trothwy carcharu; dylid ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer ymyriadau dwys yn y gymuned, yn cynnwys cyrffiw a chyfyngiadau heb eu monitro'n electronig, i gwrdd ag anghenion yr achos.

Effaith gwneud Gorchymyn Atgyfeirio ar bwerau dedfrydu eraill y llysoedd

3.28 Ni ddylid cyfuno Gorchymyn Atgyfeirio ag unrhyw benderfyniad dedfrydu arall (yn cynnwys dirwy) heblaw rhyddhau'n ddiamod mewn perthynas â throedd cysylltiedig. **Ni all** y llys wneud Gorchymyn Ategol i rwymo'r plentyn i gadw'r heddwch neu i ymddwyn yn dda. **Ni all** y llys rwymo rhieni'r plentyn wrth wneud Gorchymyn Atgyfeirio neu Orchymyn Rhianta. Er hynny, **fe all** y llys wneud Gorchymynion Ategol eraill a gall y rhain gynnwys costau, Gorchymyn Digolledu; a gorchymynion sy'n cyfyngu ymddygiad fel Gorchymynion Atal, Gorchymynion Atal Niwed Rhywiol a Gorchymynion Atal Troseddau Rhywiol.

Pennu cyfnodau gorchymynion

3.29 Penderfynir cyfnod y gorchymyn, a fydd rhwng 3 a 12 mis, gan y llys, a bydd wedi'i seilio ar ddifrifoldeb y trosedd. Mater i'r panel troseddwy'r ifanc fydd asesu pa mor ddwys yw'r ymyriadau sydd eu hangen i atal y plentyn rhag aildroseddu.

- 3.30 Bydd y TTI yn asesu pa mor debygol yw hi y bydd y plentyn yn aildroseddu drwy ddefnyddio fframwaith asesu a chynllunio ymyriadau **Asset Plus**. Bydd Asset Plus hefyd yn darparu lefel ddangosol ar gyfer Ymyriadau'r Dull Graddedig. Bydd hyn yn argymhell lefel yr ymyriadau ac mae wedi'i seilio ar asesiad o risg ac angen y plentyn. Cyflwynir yr wybodaeth hon mewn adroddiad i'r panel troseddwy'r ifanc. Lefel Ymyriadau'r Dull Graddedig fydd yn pennu pa mor ddwys fydd yr ymyriadau a'r prosesau adferol yn y contract a gytunir.
- 3.31 Gall llysoedd wneud Gorchmynion Atgyfeirio ar gyfer mwy nag un trosedd. Er hynny, caiff y plentyn ei atgyfeirio i un panel troseddwy'r ifanc, a dim ond un contract a gaiff ei osod. Gellir pennu cyfnodau gwahanol ar gyfer gwahanol orchmynion, a gallant redeg ochr yn ochr neu'n olynol, ond ni all y cyfnod ar gyfer unrhyw orchmyn fod yn fwy na 12 mis.
- 3.32 Bydd cyfnod y gorchmyn sydd wedi'i bennu gan y llys yn cychwyn ar y dyddiad pan gytunir ar y contract â'r panel troseddwy'r ifanc a'i lofnodi, nid dyddiad y llys. Os bydd y plentyn yn dangos cynnydd eithriadol ar gyflawni'r contract a gytunwyd, gall y panel troseddwy'r ifanc argymhell i'r TTI wneud cais i'r llys am ddirymu'r gorchmyn yn gynnar.

Gorchmyn i rieni fod yn bresennol

- 3.33 Mae ymgysylltu adeiladol â rhieni neu ofalwyr y plentyn yn agwedd bwysig ar broses y panel troseddwy'r ifanc.
- 3.34 Pan wneir Gorchmyn Atgyfeirio, mae **adran 20 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000** yn caniatáu i'r llys wneud gorchmyn (ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ei wneud os yw'r plentyn o dan 16 oed) yn mynnu y bydd rhiant neu ofalwr yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel troseddwy'r ifanc. Os bydd rhiant neu ofalwr y plentyn yn methu â chydymffurfio â'r gorchmyn a bod y plentyn o dan 18 oed ar adeg methiant o'r fath, gall y panel gyfeirio'r mater i lys ieuencid yn yr ardal lle mae'r plentyn yn preswyllo neu lle bydd yn preswyllo. Mewn achos o'r fath gall y llys godi gwŷs neu warant i arestio'r rhiant neu warcheidwad, i sicrhau ei bresenoldeb yn y llys.
- 3.35 Mae'n bosibl y bydd angen cymorth priodol ar rieni, fel y cyfranogwyr eraill, i ddod i gyfarfodydd y panel a rhaid i'r TTI fod yn ymwybodol o hyn. Er enghraifft, gall rhieni wynebu anawsterau fel anabledd corfforol neu anabledd dysgu, neu broblemau iechyd meddwl. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen i'r TTI ystyried gwneud trefniadau lle nad oes ond un rhiant ar yr aelwyd a bod plant ifanc eraill y mae angen gofalu amdanynt.
- 3.36 Lle dangoswyd bod y rhiant neu ofalwr wedi methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio â gorchmyn a wnaed o dan adran 20 a bod y llys wedi cael ei ddarbwylllo y byddai'n ddymunol gwneud Gorchmyn Rhianta er mwyn atal y plentyn rhag troseddu ymhellach, gall y llys wneud Gorchmyn Rhianta.¹¹ Mae methu â

¹¹ Paragraff 9D (2-7) o Atodlen 1 i Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000.

chydymffurfio â'r gorchymyn heb esgus rhesymol yn drosedd y gellir ei gosbi drwy osod dirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd).¹²

3.37 Dim ond mewn amgylchiadau **eithriadol** lle nad yw rhiant yn bresennol, er enghraifft lle mae'r rhiant yn ddiodefwr ac nad yw'n dymuno bod yn bresennol, y gall y TTI fynd ymlaen â chyfarfod y panel neu ei ailalw a chytuno ar gontract. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yn bwysig diogelu hawliau'r plentyn, yn enwedig os yw o dan 16 mlwydd oed. Er mwyn gwneud hynny, mae'n bwysig bod y plentyn yn cael pob cymorth gan oedolyn addas sy'n dderbyniol i'r plentyn ac i'r panel.

Fformat y Gorchymyn Atgyfeirio

3.38 Awgrymir cynnwys y canlynol yn y Gorchymyn Atgyfeirio:

- enw a chyfeiriad y plentyn
- manylion y trosedd
- cyfnod y gorchymyn
- enw'r TTI sy'n gyfrifol am y Gorchymyn Atgyfeirio (y TTI ar gyfer yr ardal lle mae'r plentyn yn byw, neu lle y disgwylir iddo fyw yn y dyfodol, fydd hwn)
- manylion y rhiant/rhieni/gofalwr/gofalwyr/cynrychiolydd/cynrychiolwyr awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel
- manylion unrhyw Orchmynion Ategol

3.39 Rhaid i'r llys egluro i'r plentyn mewn iaith sy'n ddealladwy i'r plentyn beth fydd yn digwydd am fod y Gorchymyn Atgyfeirio wedi'i wneud, a beth fydd y canlyniadau o beidio â chytuno neu gydymffurfio â'r contract.

3.40 Rhaid rhoi copi o'r gorchymyn i'r plentyn, a'i anfon yr un diwrnod at unrhyw un y mae'r llys yn mynnu iddo fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel, ond nad oedd yn y llys pan wnaed y gorchymyn.

3.41 Hefyd rhaid anfon copi o'r Gorchymyn Atgyfeirio ar yr un diwrnod i'r TTI sydd wedi'i enwi yn y gorchymyn.

Euogfarnau wedi'u disbyddu o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974

3.42 Bydd yr euogfarn wedi'i disbyddu cyn gynted ag y bydd y gorchymyn wedi'i gyflawni (bydd yr euogfarn wedi'i disbyddu o'r dyddiad y mae'r contract "yn peidio â chael effaith"). Mae hyn yn gydnabyddiaeth o'r ffaith bod Gorchmynion Atgyfeirio yn cael eu gwneud ar gyfer plant a gafodd euogfarn am y tro cyntaf ac sydd wedi pledio'n euog. Mae'r Gorchymyn Atgyfeirio yn rhoi cyfle i'r plentyn wneud iawn am y trosedd ac edrych ymlaen at ddyfodol heb drosedd.

3.43 Mae'r cyfnod adsefydlu mewn Gorchymyn Atgyfeirio yn para cyhyd â'r Gorchymyn Atgyfeirio neu gontract a dim pellach. Mae hyn yn golygu y bydd yr euogfarn wedi'i

¹² Adran 9(7) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 wedi'i chymhwysu gan baragraff 9D(7) o Atodlen 1 i Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000.

disbyddu fel arfer ar ddiwedd cyfnod y gorchymyn neu gontract. Fodd bynnag, lle mae'r llys yn gwneud Gorchymyn Digolledu mewn cysylltiad â Gorchymyn Atgyfeirio, ni fydd yr euogfarn wedi'i disbyddu nes bydd y Gorchymyn Digolledu wedi'i dalu a'r Gorchymyn Atgyfeirio (neu gontract) wedi'i gwblhau (a5(8), a6(2) Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974).¹³ Os telir y digollediad cyn cwblhau'r Gorchymyn Atgyfeirio, yna bydd y ddau wedi'u disbyddu ar y dyddiad y mae'r Gorchymyn Atgyfeirio (neu'r contract) yn dod i ben. Fodd bynnag, os na fydd y digollediad wedi'i dalu eto pan fydd y Gorchymyn Atgyfeirio wedi'i gwblhau, yna ni fydd y cyfnod adsefydlu ar gyfer y Gorchymyn Atgyfeirio yn dod i ben nes bydd y taliad wedi'i wneud.

- 3.44 Dylai'r TTI ac aelodau'r panel egluro i'r plentyn beth fydd y canlyniadau o wneud Gorchymyn Atgyfeirio o ran y cofnod troseddol a geir o ganlyniad ac effaith hynny, yn enwedig ar ddewis gyrfa yn y dyfodol a chyflogaeth a goblygiadau posibl i'r gallu i deithio i wledydd tramor. Hefyd dylid egluro'r term 'euogfarn wedi'i disbyddu' mewn iaith sy'n ddealladwy i'r plentyn.
- 3.45 Bydd cofnod swyddogol o'r euogfarn yn cael ei gadw a gellir cyfeirio at yr euogfarn yn y llys mewn achosion troseddol yn y dyfodol. Y fantais i'r plentyn yw na fydd y plentyn, heblaw mewn achosion eithriadol, yn gorfod datgelu'r euogfarn i bobl eraill fel cyflogwyr neu yswirwyr ac na all cyflogwr wrthod cyflogi (neu ddiswyddo) rhywun am fod ganddo euogfarn wedi'i disbyddu oni bai fod eithriad yn gymwys.
- 3.46 Gellir rhoi gwybod am euogfarnau wedi'u disbyddu i ddarparwyr addysg/hyfforddiant neu gyflogwyr dichonol mewn amgylchiadau penodol sydd wedi'u nodi yn y Gorchymyn Eithriadau i Ddeddf 1974. Mae'r prif eithriadau'n ymwneud yn fras â gweithio gyda phlant, pobl sâl, pobl sy'n agored i niwed, gweinyddu cyfiawnder a lle mae materion uniondeb ariannol o dan sylw. Mewn achosion o'r fath, bydd yn ofynnol fel arfer fod gwiriad yn cael ei wneud drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd y Gorchymyn Atgyfeirio yn cael ei ddatgelu yn rhan o'r broses hon. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen ymchwilio i ofynion yng nghyswllt rheoli pasbortau. Dylid egluro hyn i'r plentyn a lle y bo'n briodol i'w riant/gofalwr.
- 3.47 Mae Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, sy'n disodli Rhan 1 o Ddeddf Troseddwy'r Rhyw 1997, yn ei gwneud yn ofynnol bod y rheini a gafodd euogfarn neu rybudd am droseddau rhywiol perthnasol sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 3 i'r Ddeddf yn hysbysu'r heddlu am fanylion personol penodol (yn cynnwys eu henw a'u chyfeiriad) o fewn tri diwrnod ar ôl cael euogfarn neu rybuddiad. Wedyn rhaid i'r plentyn hysbysu'r heddlu pryd bynnag y bydd y manylion hyn yn newid ac yna ailgadarnhau'r manylion y maent wedi hysbysu'r heddlu amdanynt o leiaf unwaith bob 12 mis. Yr egwyddor gyffredinol yw y bydd y gofyniad i hysbysu yn gymwys i blant sydd wedi cael eu ceryddu, eu rhybuddio neu eu cael yn euog o drosedd sydd wedi'i restru yn Atodlen 3 i'r Ddeddf. Mae'r Atodlen honno'n rhestru'r holl droseddau perthnasol ynghyd â'r trothwyon.

¹³ Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974 (Eithriadau) 1975.

4. Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r bennod hon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- **Rôl aelodau'r paneli a TTlau ym mhroses y Gorchymyn Atgyfeirio**
- **Rôl y TTI**
- **Rôl cyngorydd y panel troseddwr ifanc/cydlynnydd Gorchmynion Atgyfeirio**
- **Rôl rheolwr achosion y TTI**
- **Rôl aelodau gwirfoddol y panel**
- **Cyfathrebu â'r llysoedd**

Rôl aelodau'r paneli a TTlau ym mhroses y Gorchymyn Atgyfeirio

4.1 Mae'r TTI yn gyfrifol mewn statud am gomisiynu Gorchmynion Atgyfeirio ac am eu gweithredu'n gyffredinol.¹⁴ Fodd bynnag, er mwyn cael budd gwirioneddol o'r Gorchymyn Atgyfeirio, mae angen cydweithredu gwirioneddol rhwng y TTI a gwirfoddolwyr yn y gymuned ynghyd â'r plentyn a'i rieni/gofalwyr. Mae gan bob un ohonynt ran neilltuol a hanfodol i'w chwarae i sicrhau dull adferol a chanlyniad cadarnhaol i bawb y mae'r trosedd yn effeithio arnynt.

¹⁴ Mae adran 29 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 yn datgan:
Functions of youth offending teams.

- (1) The functions of a youth offending team responsible for implementing a Referral Order include, in particular, arranging for the provision of such administrative staff, accommodation or other facilities as are required by the youth offender panel established in pursuance of the order.
- (2) During the period for which a youth offender contract between a youth offender panel and an offender has effect—
 - (a) the specified team shall make arrangements for supervising the offender's compliance with the terms of the contract; and
 - (b) the person who is the member of the panel referred to in section 21(3)(a) above shall ensure that records are kept of the offender's compliance (or non-compliance) with those terms.
- (3) In implementing Referral Orders a youth offending team shall have regard to any guidance given from time to time by the Secretary of State.

Cyn cyfarfod cychwynnol y panel

Aelodau'r panel

TTlau

Cael gwybod cyn cyfarfod cychwynnol y panel pa gysylltiad a/neu iawn, os o gwbl, y byddai'r dioddefwr yn hoffi ei gael, yn enwedig lle mae'r dioddefwr wedi dewis peidio â dod i gyfarfod cychwynnol y panel.

Hefyd dylai gweithiwr y TTI lunio adroddiad i'r panel troseddwr ifanc. Yn yr adroddiad hwn:

- ni wneir argymhellion penodol ynghylch cynnwys y contract;
- rhoddir yn llawn unrhyw sylwadau cynghori sydd wedi'u gwneud gan y llys dedfrydu am feysydd sy'n peri pryder y gofynnwyd i'r panel eu hystyried;
- gellir nodi'r math o iawn y mae'r dioddefwr yn ei ystyried yn fwyaf priodol.



Cyfarfod cychwynnol y panel

Aelodau'r panel

Rhaid i baneli troseddwr ifanc gynnwys o leiaf ddau wirfoddolwr sy'n gynrychiadol o'r gymuned leol.

Aelodau'r panel o'r gymuned a ddylai arwain yng nghyfarfod y panel a bydd un ohonynt yn gadeirydd.

TTlau

Rhaid i baneli hefyd gynnwys aelod o'r TTI, a fydd yn gweithredu fel cynghorydd, **nid** fel penderfynwr.

Dylai cynghorydd y panel o'r TTI ddarparu gwybodaeth gefndir a chyngor i aelodau'r panel o'r gymuned.



Ar ôl y cyfarfod cychwynnol

Aelodau'r Panel

Rhaid i'r panel troseddwr ifanc gynnal cyfarfodydd cynnydd gyda'r plentyn neu'r person ifanc bob tri mis o leiaf.

Methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod cychwynnol

Y panel ac nid y TTI fydd yn gwneud y penderfyniad i atgyfeirio achos yn ôl i'r llys. Ar ôl gwneud ymholiadau, dylai aelod panel y TTI adrodd i'r panel ar yr amgylchiadau sy'n berthnasol i fethiant y plentyn neu'r person ifanc i ddod i gyfarfod cychwynnol y panel.

TTIau

Rhaid i weithiwr achosion y TTI gadw cofnod o gydymffurfiaeth, neu ddiffyg cydymffurfiaeth, y plentyn neu'r person ifanc â'r contract.

Dylai hefyd ddarparu adroddiad cynnydd i'w drafod yn y cyfarfod cynnydd.

Methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod cychwynnol

Dylai aelod panel y TTI adrodd i'r panel ar fethiant gan blentyn neu'r person ifanc i ddod i gyfarfod cychwynnol y panel gan egluro'r ymdrechion a wnaed i sicrhau ei bresenoldeb a rhoi unrhyw esboniadau am ddiffyg presenoldeb y mae'r plentyn yn eu cynnig wedyn. Dylid rhoi hyn yng nghyd-destun unrhyw lwyddiant a gafwyd hyd hynny.



Cynnwys contractau

Aelodau'r Panel

Rhaid i gynnwys contractau gael ei gytuno gan y panel troseddwr ifanc a'r plentyn neu'r person ifanc, a dylai adlewyrchu galluoedd y plentyn neu'r person ifanc a natur yr ymddygiad troseddol, yn ogystal â barn y dioddefwr.

Mae hefyd yn bosibl y bydd aelodau'r panel o'r gymuned a dioddefwyr, gyda'u gwybodaeth leol, yn gallu pennu gweithgareddau a dylid eu hannog i awgrymu mathau o iawn ac ymyriadau i'w cynnwys mewn contractau sy'n gwneud defnydd o adnoddau'r gymuned yn

TTIau

Bydd cynghorydd panel y TTI yn darparu gwybodaeth ac, os bydd angen, cyngor. Cytunir ar y contract rhwng y plentyn neu'r person ifanc ac aelodau'r panel o'r gymuned.

Rhaid darparu gwybodaeth gyfredol i aelodau'r panel am y dewis o gyfleoedd i wneud iawn ac ymyrryd sydd ar gael ar y pryd ac y gellir eu cynnwys yn y contract.

Proses Adborth

Er bod angen cydweithrediad gan y ddwy ochr, rhaid i gynghorydd y panel troseddwr ifanc sicrhau cydgysylltu effeithiol rhwng Cyfarfod y Panel a'r TTI.

Er mwyn sicrhau cyfathrebu ac ymarfer effeithiol, mae'n hanfodol bod **rheolwr y TTI** yn cytuno â dedfrydwyr lleol ar drefniadau effeithiol i gydgysylltu ynghylch Gorchmynion Atgyfeirio a phaneli troseddwr ifanc. Dylai hyn gynnwys deialog reolaidd, gwybodaeth ac adborth am gynnwys contractau, canlyniadau achosion a rheoli effeithiol ar achosion sy'n cyrraedd y trothwy carcharu. Dylid annog aelodau gwirfoddol o baneli troseddwr ifanc i ddod i gyfarfodydd cyswllt â dedfrydwyr a chymryd rhan yn y broses adborth.

Rôl y TTI

4.2 Prif dasgau'r TTI yn y broses o ddefnyddio Gorchmynion Atgyfeirio yw:

- a) recriwtio, hyfforddi, arfarnu a chynorthwyo cydlynwyr Gorchmynion Atgyfeirio a/neu gynghorwyr paneli troseddwr ifanc,¹⁵ Gweithwyr Cyfiawnder Adferol neu Weithwyr Cyswllt Dioddefwyr ac aelodau gwirfoddol o banelau. Dylai aelodau panelau fod yn gynrychiadol o'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu. Wrth recriwtio aelodau panelau, dylai TTIau wneud pob ymdrech i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau lleol i sicrhau hyn;
- b) asesu plant a llunio adroddiadau i banelau troseddwr ifanc;
- c) ymgysylltu â dioddefwyr, cynnig cyfle iddynt gymryd rhan gan ystyried cydsyniad ar sail gwybodaeth ac asesu risg;
- d) bod yn bresennol yng nghyfarfodydd panelau troseddwr ifanc a'u cynghori; sicrhau bod Gorchmynion Atgyfeirio yn cael eu gweithredu mewn ffordd adferol ac yn unol ag egwyddorion ac ethos ymarfer adferol;
- e) goruchwyllo achosion, monitro cydymffurfiaeth plant â chontractau, yn cynnwys trefnu i atgyfeirio achosion yn ôl i'r llys yn dilyn penderfyniad gan y panel;
- f) darparu adborth i ddiodefwyr troseddau lle cytunwyd i wneud hynny a'i fod yn briodol;
- g) casglu gwybodaeth ystadegol a gwybodaeth arall sydd ei hangen yn ganolog, er enghraifft, data am ganlyniadau i'w defnyddio i wella gwasanaethau;
- h) casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, yn cynnwys dioddefwyr, a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau;
- i) cydgysylltu'n rheolaidd â dedfrydwyr, yn cynnwys deialog reolaidd a gwybodaeth ac adborth ynghylch contractau'r panelau a chanlyniadau achosion.

Rôl cynghorydd y panel troseddwr ifanc/cydlynnydd Gorchmynion Atgyfeirio

4.3 Mae cynghorydd y panel troseddwr ifanc/cydlynnydd Gorchmynion Atgyfeirio yn cyflawni rôl hanfodol drwy:

- a) cynnal proses y panel a chynorthwyo aelodau gwirfoddol y panel;
- b) darparu gwybodaeth a chynghor ar wasanaethau, prosesau, y fframwaith cyfreithiol, cymesuredd, y Dull Graddedig ac ymyriadau posibl;
- c) asesu a monitro risg i ddiogelwch a llesiant yr holl gyfranogwyr;
- d) sicrhau cydlynu effeithiol rhwng Cyfarfod y Panel a'r TTI;
- e) hysbysu'r panel am unrhyw sylwadau a wnaed gan y llys dedfrydu i'w hystyried wrth bennu'r contract;

¹⁵ Bydd strwythurau TTIau yn amrywio yn ogystal ag enwau swyddi/rolau.

- f) bod ar gael i wirio bod y contract yn deg ac effeithiol, yn cynnwys camau priodol i wneud iawn a gweithgareddau i leihau'r perygl o aildroseddu yn unol â'r Dull Graddedig;
- g) hwyluso myfyrio ar ddiwedd pob cyfarfod o'r panel ynghylch sut roedd y panel wedi'i gynnal, pa mor dda y dilynwyd y broses adferol, enghreifftiau o arfer dda ac unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol;
- h) hyfforddi cyngorwyr paneli y TTI ac aelodau paneli mewn cyfiawnder adferol a meysydd perthnasol eraill, e.e. theori seiliedig ar drawma. Dylai aelodau paneli gael dealltwriaeth glir o rôl y panel a'r broses adferol yn ogystal â'r egwyddorion sylfaenol. Mae'r newidiadau mewn hyfforddiant yn ategu'r ymrwymiad i ehangu'r defnydd o gyfiawnder adferol gan sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (2010), gofynion y Cod Ymarfer i Hyfforddwyr a Sefydliadau Hyfforddi Ymarfer Adferol (sy'n galw am o leiaf 20 awr o hyfforddiant wyneb yn wyneb) a'r Canllawiau Arfer Orau a osodwyd gan y Cyngor Cyfiawnder Adferol a Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder.

Rôl rheolwr achosion y TTI

- 4.4 Mae'r rheolwr achosion yn gyfrifol am sicrhau bod y contract yn cael ei fonitro a bod yr achos yn cael ei oruchwyllo at y safon ofynnol. Rhaid i'r rheolwr achosion asesu'r plentyn yn rheolaidd am gynnydd a'r tebygolrwydd o aildroseddu gan ddefnyddio fframwaith Asset Plus a sicrhau bod gwybodaeth am achosion ac ystadegau yn cael ei chofnodi'n briodol.
- 4.5 Rhaid i'r rheolwr achosion sicrhau bod unrhyw gamau i wneud iawn gan y plentyn yn cael eu hasesu am risg, bod darpariaethau priodol ar gyfer iechyd a diogelwch a'u bod yn unol â'r cytundeb sydd yn y contract.
- 4.6 Rhaid i'r rheolwr achosion sicrhau bod pob rhan o'r contract yn cael ei chyflawni o fewn cyfnod y gorchymyn a bod y panel yn cael ei hysbysu am unrhyw fethiant i gydymffurfio gan y plentyn o fewn cyfnod priodol. Rhaid cymryd camau priodol ac amserol ar unrhyw benderfyniad gan y panel i atgyfeirio achos yn ôl i'r llys, yn cynnwys ceisiadau am ddirymu'r gorchymyn ar sail cynnydd eithriadol.
- 4.7 Dylid cadw cofnodion achos o'r holl weithgareddau.
- 4.8 Rhaid i'r TTI weithredu'n unol â'r ddeddfwriaeth a dilyn canllawiau perthnasol, sy'n cynnwys y Safonau Cenedlaethol i Wasanaethau Cyfiawnder Ieuentid (Safonau Cenedlaethol), y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau (Cod y Dioddefwyr), Canllawiau Arfer Dda y Cyngor Cyfiawnder Adferol, Safonau Gwasanaethau Adferol, Llawlyfr yr Ymarferydd (2016) a Llawlyfr y Darparwr Gwasanaethau (2016).

Rôl aelodau gwirfoddol y panel

- 4.9 Aelodau gwirfoddol y panel fydd yn hwyluso cyfarfod y panel. Bydd un ohonynt yn ymgymryd â rôl y cadeirydd.
- 4.10 Yng nghyfarfodydd y panel, bydd aelodau gwirfoddol y panel yn cychwyn trafodaeth â'r plentyn ac, os yw'n briodol, rhieni/gofalwyr a'r dioddefwr/dioddefwyr i holi am yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y trosedd a chlywed am ei effaith.
- 4.11 Bydd aelodau'r panel yn ystyried unrhyw anghenion a oedd wedi arwain at y trosedd neu wedi codi ohono er mwyn cytuno ar gontract.¹⁶ Bydd aelodau gwirfoddol y panel yn cydweithio ag eraill sy'n bresennol i gyfrannu at ddatblygu'r contract drwy broses 'cydgynhyrchu' gyda'r plentyn. Fel y nodwyd yn barod, rôl cynghori yn hytrach na rôl penderfynu sydd gan gynghorydd panelau'r TTI yn y broses hon.
- 4.12 Dylai aelodau gwirfoddol y panel hwyluso camau ystyrion i ymgysylltu â'r plentyn a'i gynnwys yn y broses. Dylid helpu'r plentyn i ganfod beth mae'n credu y bydd yn gallu ei wneud i wneud iawn am y niwed y mae wedi'i achosi a pha gymorth sydd ei angen arno i fyw bywyd cadarnhaol a chynhyrchiol. Gorau oll os mai'r plentyn fydd yn cynnig y rhan fwyaf o'r syniadau hyn, ond mae aelodau gwirfoddol y panel hefyd yn cael eu hannog i gynnig syniadau i'w cynnwys mewn contractau. Bydd yn bwysig bod syniadau o'r fath wedi'u seilio ar gryfderau'r plentyn a'u bod yn ystyriol o unrhyw rwystrau i lwyddiant, yn cynnwys rhwystrau ffisegol fel cysylltiadau trafniadaeth. Dylai'r contract wneud defnydd ystyrion o adnoddau'r gymuned yn hytrach na rhai'r TTI yn unig.

Cyfathrebu â'r llysoedd

- 4.13 Mae cydgysylltu agos rhwng TTIau a'r llysoedd yn hanfodol i sicrhau bod deddfwyr yn cael gwybodaeth dda a'u bod yn ymddiried yn y Gorchmynion Atgyfeirio a'r paneli troseddwr ifanc. Er mwyn hwyluso hyn, dylai TTIau wneud cytundebau gwasanaeth â'r llysoedd a fydd yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Dylid cynnwys gweithdrefnau mewn cytundebau i reoli achosion sy'n cyrraedd y trothwy carcharu mewn ffordd effeithiol.
- 4.14 Dylai TTIau ddarparu adroddiadau rheolaidd i Farnwyr, ynadon a'u cynghorwyr cyfreithiol ar weithredu Gorchmynion Atgyfeirio a phanelau troseddwr ifanc. Dylai'r partïon gytuno ar gynnwys yr adroddiadau hyn a gallant gynnwys gwybodaeth am achosion penodol ac astudiaethau achos unigol a data cyfanredol ar Orchmynion Atgyfeirio a basiwyd yn ystod cyfnod penodol. Bydd hyn yn bwysig iawn mewn achosion sy'n cyrraedd y trothwy carcharu er mwyn sicrhau bod llysoedd yn gallu canfod llwyddiannau lle mae plentyn wedi cael aros yn y gymuned yn hytrach na chael ei ddedfrydu i'r ddalfa.

¹⁶ Mae'r contract wedi'i ddiffinio fel a ganlyn mewn deddfwriaeth: "a programme of behaviour with the aim (or principal aim) of which is the prevention of re-offending by the offender". Adran 23(1) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000

- 4.15 Dylai TTIau gynnal cyfarfodydd cyswllt rheolaidd ag ynadon. Dylid hefyd ystyried trefnu i aelodau panelau fod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn, o bryd i'w gilydd o leiaf. Dylid trefnu digwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio ar y cyd a fydd yn cynnwys barnwyr, ynadon a'u cynghorwyr cyfreithiol, y TTI ac aelodau gwirfoddol y panelau.

5. Recriwtio, hyfforddi a chynorthwyo aelodau gwirfoddol o banelau

Mae'r bennod hon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Meini prawf dethol
- Meini prawf anghymhwysra
- Ffurflen gais aelod panel gwirfoddol
- Y cyfweiliad
- Hyfforddiant rhagarweiniol i aelodau panel gwirfoddol
- Tynnu'n ôl
- Cytundeb aelod panel gwirfoddol
- Treuliau
- Cymorth, goruchwyliaeth a hyfforddiant parhaus
- Gweithdrefnau terfynu
- Gweithdrefn gwynion

Meini prawf dethol

5.1 Mae pŵer gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 21(2) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 i gyflwyno canllawiau i TTIau ar y meini prawf sydd i'w cymhwyso wrth benodi aelodau o banelau troseddwr ifanc. Er mwyn sicrhau bod panelau troseddwr ifanc yn amrywiol ac yn gynrychiadol o'r gymuned leol, ni ddylid gosod cyfyngiadau diangen ar recriwtio. Mae'r meini prawf dethol wedi'u seilio ar nodweddion personol yn hytrach na chymwysterau proffesiynol. Bydd hyfforddiant yn rhan annatod a gorfodol o'r broses recriwtio er mwyn sicrhau bod aelodau gwirfoddol y paneli yn meddu ar y sgiliau priodol.

5.2 Y nodweddion personol sy'n ofynnol yw:

- | | |
|--------------------|---|
| Cymhelliant | <ul style="list-style-type: none"> • ymrwymiad i weithio gyda phlant a rhieni i atal troseddu pellach a chyda dioddefwyr i ddelio â chanlyniadau troseddu |
| Cymeriad da | <ul style="list-style-type: none"> • uniondeb personol • pwyll ac ymrwymiad cadarn i gyfrinachedd • dealltwriaeth a doethineb, ymagwedd synhwyrol at blant a throseddu • gallu ac ymrwymiad cadarn i weithio heb ragfarnu yn erbyn pobl o wahanol oed a chefnidiroedd ethnig, diwylliannol a chymdeithasol gwahanol |

- Sgiliau cyfathrebu**
 - sgiliau gwranddo a chyfathrebu effeithiol
 - y gallu i ymwneud â phobl ifanc
 - y gallu i ddeall dogfennau, canfod ac amgyffred ffeithiau perthnasol, a dilyn dadleuon
 - y gallu i feddwl yn rhesymegol, cloriannu dadleuon a dod i gasgliadau rhesymegol
 - gwrthrychedd
 - synnwyr cyffredin a disgwyliadau ymarferol
- Cymeriad dibynadwy**
 - y gallu i ymwneud ag eraill fel aelod o dîm y panel a chydweithio â nhw
 - parodrwydd i wrando ar gyngor ac ar farn pobl eraill
 - aeddfedrwydd, amynedd a'r gallu i aros yn ddigynnwrf
- Ymroddiad a dibynadwyedd**
 - parodrwydd i ymgymryd â'r holl hyfforddiant cychwynnol, hyfforddiant ychwanegol ac asesu ac arfarnu parhaus sy'n ofynnol
 - ymrwymiad i wasanaethu fel aelod o'r panel fel y gofynnir bob blwyddyn a gwneud y gwaith paratoi perthnasol ym mhob achos
 - ymrwymiad i wasanaethu am un flwyddyn o leiaf ar ôl cwblhau'r hyfforddiant cychwynnol
 - ymrwymiad i werthoedd ac egwyddorion adferol a pharodrwydd i ddysgu a defnyddio sgiliau adferol er mwyn sicrhau bod panelau'n dilyn y broses adferol yn glir, yn grymuso pawb sy'n ymwneud â'r panelau i fynegi eu barn a chymryd rhan yn y broses adfer ac adsefydlu.

5.3 Bydd yn bwysig bod y broses recriwtio a dethol yn rhoi gwybodaeth am addasrwydd ymgeiswyr ar sail y meini prawf hyn. Dylai detholwyr edrych ar botensial ymgeiswyr, gan gofio y bydd rhai'n fwy profiadol na'i gilydd o gymryd rhan mewn gweithdrefnau dethol, cyfweliadau a sefyllfaoedd grŵp.

Cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag anghyfartalwch hiliol

5.4 Rhaid i bob TTI ddangos ymrwymiad i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal a dylid cymryd gofal i sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan mewn panelau troseddwr ifanc yn agored i bawb, beth bynnag fo'u hoed, eu tarddiad ethnig neu hiliol, eu rhywedd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu cefndir cymdeithasol, eu crefydd, eu hanabledd neu unrhyw ffactor amherthnasol arall. Wrth recriwtio bydd angen ystyried gweithdrefnau perthnasol awdurdodau lleol ar gyfer gwirfoddolwyr.

5.5 Rydym hefyd yn ymwybodol bod cyfran fawr o blant du ac Asiaidd a thai o gefndir ethnig lleiafrifol mewn rhai ardaloedd a dylai pob TTI weithredu strategaeth recriwtio glir sy'n ceisio recriwtio aelodau i banelau sy'n adlewyrchu proffil demograffig y boblogaeth leol. Yn ogystal â hyn, dylai TTlau wneud pob ymdrech i sicrhau bod plant du ac Asiaidd a'r rhai o gefndir ethnig lleiafrifol yn cwrdd â phanel cynrychiadol.

Cyfnodau gwasanaeth

- 5.6 Mae gwirfoddolwyr yn cael eu hannog i wasanaethu ar banelau troseddwy'r ifanc am gyfnodau o hyd at dair blynedd er mwyn meithrin ac arfer sgiliau da. Tua diwedd unrhyw gyfnod gwasanaeth o dair blynedd, bydd y TTI yn cynnal adolygiad llawn o berfformiad ac, os ceir bod y perfformiad yn foddhaol, gellir estyn y cyfnod o wasanaeth ar y panel yn ôl disgrisiwn rheolwr y TTI ac yn ôl anghenion y panel a gallu'r gwirfoddolwr i fod ar gael. Gall rheolwr y TTI arfer ei ddisgrisiwn i derfynu cyfnod gwasanaeth aelod o'r panel ar unrhyw adeg lle nad yw cymwyseddau hyfforddiant ac ymarfer wedi'u cynnal.

Meini prawf anghymhwysra

Oed

- 5.7 Rhaid bod yn 18 mlwydd oed o leiaf.
- 5.8 Heblaw'r amod hwn, ni ddylai oed fod yn rhwystr i recriwtio ohono'i hun. Priod nod y strategaeth recriwtio yw recriwtio nifer amrywiol o aelodau gwirfoddol o baneli sy'n cwmpasu ystod o oedrannau a phrofiad.

Hanes troseddu blaenorol

- 5.9 Bydd troseddau rhywiol, troseddau yn erbyn plant neu euogfarn am drosedd o fewn y ddwy flynedd diwethaf yn peri bod rhywun yn anaddas. Fel arall, lle gall yr ymgeisydd ddangos nad yw'n peri perygl o aildroseddu, ni fydd troseddu blaenorol yn rhwystr i recriwtio o reidrwydd ac mae hyn yn fater i ddisgrisiwn rheolwr y TTI ar ôl cynnal proses asesu risg. Wrth benderfynu, dylid rhoi sylw i euogfarnau blaenorol am droseddau cysylltiedig â chyffuriau, troseddau treisgar, troseddau eraill o natur ddirifol a thystiolaeth o droseddu cyson diweddar.
- 5.10 Lle mae unrhyw ansicrwydd ynghylch y ffordd y byddai troseddu blaenorol yr unigolyn yn gallu effeithio ar ei addasrwydd i fod yn aelod o banel troseddwy'r ifanc, ni ddylid ei dderbyn yn wirfoddolwr; dylai rheolwr y TTI ei wrthod gan esbonio'r rhesymau i'r ymgeisydd ynghyd â'r camau y gall yr ymgeisydd eu cymryd i lwyddo mewn cais yn y dyfodol.
- 5.11 Cynhelir gwiriadau llawn gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac mae'n ofynnol bod unrhyw un sy'n ymgeisio i fod yn aelod gwirfoddol o banel yn datgan unrhyw euogfarnau a gafodd (rhai 'wedi'u disbyddu' a rhai 'heb eu disbyddu' o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974), rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion terfynol.

Gweithwyr cyfiawnder ieuenctid proffesiynol

- 5.12 Dylid cael cydbwysedd ar baneli troseddwy'r ifanc rhwng y rheini sy'n edrych o safbwynt cwbl newydd ar broses y panel a'r rheini sydd â phrofiad o'r system cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, rhaid recriwtio aelodau gwirfoddol i baneli ar sail eu nodweddion personol fel gwirfoddolwyr, nid fel cynrychiolwyr o unrhyw grŵp neu broffesiwn.
- 5.13 Nid yw ynadon sy'n gwasanaethu ar y pryd yn gymwys i fod yn aelodau o banelau troseddwy'r ifanc yn eu hardal eu hunain ond, yn ddarostyngedig i 5.18 isod, nid ydynt yn cael eu gwahardd rhag ymgeisio i wasanaethu ar banelau y tu allan i ardal

eu llys na rhag ymgeisio am eu penodi yn eu hardal eu hunain wedi iddynt ymddiswyddo neu ymddeol.

Cysylltiad personol

5.14 Ni fydd yn briodol i aelodau panel gymryd rhan mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â phlentyn sy'n aelod o'u teulu neu'n adnabyddus iddynt neu'n blentyn y maent wedi dod i gysylltiad ag ef o'r blaen mewn perthynas â dyletswydd arall. Mae angen i weinyddwyr paneli ddatblygu gweithdrefnau i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu gwneud ymlaen llaw ac, os bydd aelodau gwirfoddol o baneli yn darganfod bod unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau, rhaid iddynt hysbysu gweinyddwr y panel ar unwaith.

Ffurflen gais aelod panel gwirfoddol

5.15 Dylid trefnu i ffurflen gais fod ar gael i wirfoddolwyr sy'n ymgeisio i ddod yn aelod o banel troseddwr ifanc yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am fod yn aelod gwirfoddol o banel.

5.16 Gellir gwrthod ymgeiswyr ar sail ffeithiau perthnasol sy'n cael eu datgelu ar eu ffurflenni (er enghraifft, os nad ydynt yn bodloni'r maen prawf am oed) a dylid gwahodd yr holl ymgeiswyr eraill i gymryd rhan mewn cyfweliad a phroses dethol.

5.17 Rhaid cynnal gwiriadau gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan gynnwys euogfarnau wedi'u disbyddu a rhybuddiadau, a rhaid mynd ar ôl tystlythyrau hefyd. Dylid gofyn i ganolwyr asesu a yw'r ymgeisydd yn addas i weithio ar banel troseddwr ifanc gyda phlant sy'n troseddu a'u dioddefwyr.

Y cyfweliad

5.18 Dylid gwahodd yr holl ymgeiswyr cymwys i gymryd rhan mewn cyfweliad. Dylid cael o leiaf ddau gyfwelydd sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth dda am y Gorchmynion Atgyfeirio ac sydd wedi'u hyfforddi i gyfweld. Dylai un ohonynt fod yn rheolwr o'r TTI neu'n gydlynnydd (prosiect) Gorchmynion Atgyfeirio. Wrth drefnu amseroedd a lleoliadau cyfweliadau, dylai'r TTIau fod yn hyblyg a cheisio cwrdd â holl anghenion rhesymol yr ymgeiswyr. Gellir gwrthod rhai ymgeiswyr ar ôl eu cyf-weld ond dylid gwahodd pob ymgeisydd addas sy'n ymddangos ei fod yn meddu ar yr holl nodweddion personol sydd eu hangen i fod yn aelod o banel i ddod i'r diwrnodau hyfforddi.

Hyfforddiant rhagarweiniol i aelodau panel gwirfoddol

5.19 Rhaid i bob aelod gwirfoddol o banel ddilyn hyfforddiant yn rhan o'r broses recriwtio. Bydd angen i'r TTI ei fodloni ei hun fod aelodau panel gwirfoddol yn ddigon medrus i gyflawni'r rôl sydd wedi'i bwriadu ar eu cyfer a dylai ddarparu hyfforddiant i aelodau panel gwirfoddol ar sail anghenion y gwasanaeth. Rydym yn annog TTIau i gynnig hyfforddiant a ddarperir gan hyfforddwr sydd wedi ennill Marc Ansawdd Darparwr Hyfforddiant (TPQM) y Cyngor Cyfiawnder Adferol.

5.20 Mae'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn argymhell cynnwys y canlynol o leiaf yn yr hyfforddiant:

- cyflwyniad i'r system cyfiawnder ieuencid;
- ymwneud â phlant sy'n troseddu;
- materion sy'n effeithio ar blant sy'n troseddu fel trawma a cham-drin/diogelu, iechyd meddwl, profiad o'r system gofal, camfanteisio ac eithafiaeth, gwahaniaethu ac amrywiaeth, ymatal rhag troseddu a chyfiawnder ieuencid cadarnhaol, datblygiad plant a'r glasoed, risg a ffactorau amddiffynnol;
- sgiliau hwyluso cyfiawnder adferol – yn cynnwys meithrin cyfathrebu adferol o fewn panelau, a grymuso'r rhai sy'n cymryd rhan i gytuno ar ffyrdd ymlaen (i gydymffurfio â safonau sylfaenol y Cyngor Cyfiawnder Adferol ar gyfer hyfforddiant i hwyluso cyfiawnder adferol);
- gweinyddu panelau (yn cynnwys panelau cyn y llys, cyn ac ar ôl cyfarfodydd o'r panel, y panel cychwynnol, panelau adolygu, brys a therfynol, rôl pob un sy'n bresennol, nodau'r panelau);
- sgiliau ymarferol fel chwarae rôl (sgiliau cyfathrebu, cyfarfodydd panel);
- deall dioddefwyr ac effaith troseddu ar ddioddefwyr.

5.21 Ar y cyd â'r sector, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi cynllunio hyfforddiant y gall TTIau ei ddefnyddio i hyfforddi aelodau panel gwirfoddol sydd ar gael drwy'r wefan dysgu rhyngweithiol Cyfiawnder Ieuencid.¹⁷

Nid yw'r hyfforddiant hwn yn orfodol ond mae ar gael i'w ddefnyddio os yw TTIau am wneud hynny. Os nad yw TTI yn dymuno defnyddio'r hyfforddiant hwn, bydd yr egwyddorion uchod yn berthnasol i'r graddau bod rhaid i'r TTI gael ei fodloni bod yr hyfforddiant yn addas i'w ddiben a'i fod yn galluogi aelodau panel gwirfoddol i gyflawni eu rôl. Gall TTIau ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Adferol wrth wneud penderfyniadau am hyfforddiant i sicrhau bod hyfforddiant yn cyrraedd ei safonau gofynnol.

5.22 Os bydd unrhyw faterion yn codi yn ystod yr hyfforddiant a all effeithio ar addasrwydd yr hyfforddai i wasanaethu fel aelod o banel, dylid delio â'r rhain cyn gynted â phosibl. Rydym yn argymhell cynnal cyfweiliad terfynol ar ôl yr hyfforddiant lle gellir canfod unrhyw anghenion am gymorth neu hyfforddiant a chynorthwyo'r aelod panel. Gall hyn fod yn gyfle hefyd i drafod addasrwydd yr aelod panel.

Tynnu'n ôl

5.23 Ar ôl cael gwybod rhagor am baneli troseddwy'r ifanc, mae'n bosibl y bydd ymgeisydd am dynnu'n ôl o'r broses dethol. Yn wir, un o amcanion pwysig yr hyfforddiant yw y bydd ymgeiswyr yn asesu eu haddasrwydd ar ôl deall rhagor am aelodaeth o baneli. Ond, i'r un graddau, dylid meithrin hyder mewn ymgeiswyr addas i fynd ymlaen i ddod yn aelod panel.

¹⁷ <https://yjresourcehub.uk/login.html>

Cytundeb aelod panel gwirfoddol

- 5.24 Ar ôl yr hyfforddiant, dylid gwahodd darpar aelodau gwirfoddol o baneli i gyfweiliad terfynol i gytuno ar eu recriwtio. Dylai cytundeb aelod panel gwirfoddol gael ei lofnodi gan yr aelod panel gwirfoddol a rheolwr priodol yn y TTI.

Treuliau

- 5.25 Mae'n bwysig na fydd gwirfoddolwr yn ysgwyddo costau o ganlyniad i ymgeisio i fod yn aelod panel gwirfoddol. Dylai'r TTI ei ad-dalu am gostau teithio sylfaenol i ddod i gyfweiliadau a diwrnodau hyfforddi. Bydd y cyfraddau'n dibynnu ar ffactorau lleol, ond fe ddylent dalu am drafnidiaeth gyhoeddus dosbarth cyffredin neu gost petrol. Os yw gofal plant yn ystyriaeth, dylai'r TTI a'r darpar wirfoddolwyr gydweithio i ddod o hyd i atebion ymarferol.

Cymorth, goruchwyliaeth a hyfforddiant parhaus

- 5.26 Ar ôl eu recriwtio, dylid pennu aelod goruchwyllo o'r TTI ar eu cyfer.
- 5.27 Cyfrifoldeb yr aelod goruchwyllo o'r TTI fydd sicrhau bod y cymorth a'r hyfforddiant angenrheidiol ar gael a monitro perfformiad yr aelodau panel gwirfoddol sydd o dan ei oruchwyliaeth. Bydd hyn yn golygu arsylwi mewn cyfarfodydd paneli, cymryd rhan mewn ôl-drafodaeth â'r panel, a myfyrio a chael adborth gan aelodau eraill o'r panel a staff y TTI. Gellir gofyn am adborth hefyd gan blant, eu rhiant/gofalwr a'r dioddefwr os yw'n bresennol.

Dylai TTIau gadw'n wastad â newidiadau mewn ymarfer sydd wedi'u nodi gan y Cyngor Cyfiawnder Adferol.

- 5.28 Lle nodwyd bod anghenion penodol o ran hyfforddiant, dylid trafod y rhain â'r aelod panel gwirfoddol a gwneud y trefniadau angenrheidiol. Mae'n bwysig bod pob aelod panel gwirfoddol yn cael hyfforddiant ychwanegol a/neu hyfforddiant diweddarau. Gellir rhoi sylw i nifer o bynciau priodol mewn hyfforddiant (er enghraifft, gweithio gyda phlant sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol neu blant sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol). Dylai aelodau panel gwirfoddol gael cyfle hefyd i gwrdd ag ynadon y llys ieuencid lleol o bryd i'w gilydd a gweld y llys ieuencid wrth ei waith os yw'n bosibl.
- 5.29 Bydd ôl-drafod ar ôl cyfarfodydd panelau yn agwedd bwysig ar hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau paneli. Gall cynghorydd y panel hwyluso'r trafodaethau hyn neu gall aelodau o'r panel eu harwain eu hunain ym mhresenoldeb cynghorydd y panel. Gall y TTI hwyluso grwpiau goruchwyllo gan gymheiriaid i ategu cyfarfodydd arfarnu ac adolygu lle bydd modd i aelodau panel gwirfoddol drafod achosion a'u perfformiad eu hunain. Drwy rwydweithio â phaneli troseddwr ifanc mewn ardaloedd cyfagos, ceir cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a phrofiad o ymarfer a gellir defnyddio'r rhain i ddibenion hyfforddi a datblygu hefyd.
- 5.30 Dylai TTIau alw cyfarfodydd strwythuredig ag aelodau panel gwirfoddol yn rheolaidd i'w hannog i fyfyrion a dysgu gwersi o'u profiad o hwyluso paneli, ac i ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth.

5.31 Dylid cynnal cyfarfodydd un-i-un ffurfiol ar gyfer arfarnu ac adolygu yn unol â'r arfer leol. Bydd y rhain yn cynnig cyfle i aelodau goruchwyllo'r TTI drafod perfformiad a datblygiad cyffredinol aelodau panel gwirfoddol, a chael adborth i'w helpu i ddeall anghenion aelodau panel gwirfoddol. Dylid cael trafodaeth lawn ac agored, gan nodi meysydd problemus lle y bo angen a chytuno ar awgrymiadau ar gyfer gwella. Dylid defnyddio'r cyfarfodydd hyn hefyd i adnewyddu cytundebau aelod panel gwirfoddol, lle mae'r aelod panel gwirfoddol a'r TTI yn gytûn ar hynny.

Gweithdrefnau terfynu

5.32 Cyfrifoldeb rheolwyr y TTI yw terfynu gwasanaeth aelodau panel gwirfoddol. Dylai'r penderfyniad i derfynu gwasanaeth gael ei seilio ar safonau mesuradwy o gamymddwyn difrifol neu berfformiad gwael. Mae'n bwysig bod rheolwyr y TTI yn casglu'r holl ffeithiau cyn gweithredu, gan sicrhau bod opsiynau ar gyfer delio â chamymddwyn neu godi safonau drwy hyfforddiant a chymorth wedi cael eu hystyried ac mai terfynu gwasanaeth yw'r unig ddewis sydd ar gael. Dylent edrych ar yr holl gymhellion hefyd i sicrhau nad dial neu wahaniaethu yw achos y terfynu.

5.33 Bydd unrhyw benderfyniad gan reolwr TTI i derfynu gwasanaeth aelod panel gwirfoddol yn gyfrinachol, a rhaid diogelu urddas a phreifatrwydd y gwirfoddolwr. Dim ond y partiön sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r terfynu a ddylai fod yn rhan o'r drafodaeth. Os bydd gwasanaeth aelod panel gwirfoddol yn cael ei derfynu, bydd ganddo hawl i apelio drwy'r gweithdrefnau lleol a gytunwyd (gweler **5.36**).

5.34 Os bydd aelod goruchwyllo o'r TTI yn cael gwybod bod aelod panel gwirfoddol wedi camymddwyn yn ddifrifol – drwy fethu â rhoi gwybod am ei arestio am drosedd, am euogfarn am drosedd difrifol, am ymddygiad gwahaniaethol neu dor-cyfrinachedd – yna bydd hawl gan aelod goruchwyllo'r TTI i atal yr aelod panel gwirfoddol yn unol â pholisïau lleol tra bydd rheolwr y TTI yn ymchwilio i'r achos. Bydd yr aelod panel gwirfoddol yn cael ei hysbysu am benderfyniad rheolwr y TTI cyn gynted â phosibl ar ôl ei atal, a bydd ganddo hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn drwy'r weithdrefn gwynion leol a gytunwyd.

Gweithdrefn cwynion

5.35 Dylai aelodau panel gwirfoddol deimlo eu bod yn rhydd i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt gydag aelodau goruchwyllo'r TTI ar unrhyw adeg, ac yn enwedig mewn cyfarfodydd un-i-un ar gyfer arfarnu ac adolygu.

5.36 Bydd yn bwysig bod aelodau panel gwirfoddol yn cael gwybodaeth ysgrifenedig glir am weithdrefnau i ddelio â phryderon a chwynion. Dylai hyn gynnwys cyfle i gwrdd â rheolwr y TTI os na ellir datrys y mater mewn ffyrdd eraill. Bydd bwrdd rheoli'r TTI yn penderfynu ar y trefniadau ar gyfer unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad gan reolwr y TTI. Rhaid hysbysu'r achwynydd am yr hawl hon i apelio.

6. Ymgysylltu â dioddefwyr

Mae'r bennod hon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- [Dull adferol](#)
- [Cynnwys dioddefwyr](#)
- [Cysylltu â dioddefwyr](#)
- [Cynorthwyo dioddefwyr](#)
- [Dioddefwyr corfforaethol](#)
- [Gwneud iawn ariannol](#)
- [Dioddefwyr ifanc](#)
- [Gwasanaethau cymorth i ddiodeswyr](#)

Dull adferol

6.1 Mae panelau troseddwy ifanc yn gweithredu ar sail egwyddorion cyfiawnder adferol, gan alluogi pobl ifanc, drwy gymryd cyfrifoldeb a gwneud iawn, i ailintegreiddio a byw bywyd diogel heb droseddu a gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas. Rhaid rhoi cyfle i ddiodeswyr gymryd rhan yn y broses o ddatrys y trosedd a'i ganlyniadau, os ydynt yn dymuno gwneud hynny ac ar ôl cydsynio ar sail gwybodaeth. Mae proses y panel troseddwy ifanc yn gyfle i:

- roi sylw i anghenion y diodeswr am wybodaeth;
- ateb cwestiynau;
- rhoi sicrwydd am ddiogelwch yn y dyfodol;
- sicrhau bod iawn yn cael ei wneud am y niwed a wnaed.

6.2 Yn aml bydd diodeswyr sy'n bresennol mewn prosesau cyfiawnder adferol fel proses y panel troseddwy ifanc yn gallu cael budd sylweddol ac maent yn dweud gan amlaf eu bod yn fodlon iawn ar y broses. Hefyd mae presenoldeb diodeswyr yn gallu cynyddu effaith lesol y panel ar blant a'u rhiant/gofalwr yn sylweddol.

6.3 Diffiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o Gyflawnder Adferol yw "y broses sy'n dod â'r rheini a gafodd eu niweidio gan droseddu, a'r rheini sy'n gyfrifol am y niwed, at ei gilydd i gyfathrebu, gan alluogi pawb y mae digwyddiad penodol wedi effeithio arnynt i chwarae rhan mewn gwneud iawn am y niwed a dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen". Mae hyn yn galw am gyfathrebu uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng y diodeswr a'r person a gyflawnodd y trosedd. Dylai fodloni dymuniadau'r ddau, nid un neu'r llall yn unig. Y dull mwyaf priodol i ddiodeswr penodol, ar ôl cael gwybod am yr opsiynau a'r manteision posibl, fydd yr un y mae'n dymuno ei gael. Yn ogystal â chyfarfod wyneb yn wyneb, gall hyn gynnwys, er enghraifft, gwneud iawn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn ffordd sy'n

ateb cais penodol y dioddefwr, cyfryngu yn ôl ac ymlaen rhwng partiön, a all gynnwys atebion i gwestiynau, neu gael esboniad neu ymddiheuriad ysgrifenedig.

Cynnwys dioddefwyr

- 6.4 Mae'n **hanfodol** bod dioddefwyr yn cael eu gwahodd a'u croesawu i fod yn rhan o broses y Gorchmyn Atgyfeirio. Er hynny, rhaid i'r ymwneud gan ddiodefwyr fod yn gwbl wirfoddol ac wedi'i seilio ar gydsyniad ar sail gwybodaeth. Bydd angen i'r TTI fod yn ymwybodol y bydd gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr wedi cysylltu â diodefwyr yn barod mewn llawer achos a bydd angen i'r TTI ystyried sut i gysylltu â'r diodefwr ar ôl hynny. Bydd yn fanteisiol os yw TTlau yn gallu creu cysylltiadau â gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr yn eu hardal er mwyn rhannu gwybodaeth. Y nod fydd gwneud profiad y diodefwr mor ddi-dor a hwylus â phosibl. Ni ddylai'r ymgysylltu â'r diodefwr drwy broses y Gorchmyn Atgyfeirio fod yn gyfyngedig i bresenoldeb yng nghyfarfod cychwynnol y panel. Gall diodefwyr ddewis bod yn bresennol yng nghyfarfod cychwynnol y panel neu mewn unrhyw adolygiad a geir wedyn er mwyn i'w barn gael ei chyfleu neu i gyflwyno datganiad wedi'i ysgrifennu neu ei recordio i'r panel. Fel arall, gall y diodefwr ddewis bod yn bresennol mewn cynhadledd cyfiawnder adferol ffurfiol neu broses anffurfiol sy'n cynnwys y diodefwr a'r troseddwr yn hytrach na chyfarfod o'r panel, er mwyn cael ei hysbysu am gynnydd y plentyn, neu beidio â chymryd rhan o gwbl ym mhroses y Gorchmyn Atgyfeirio. Rôl y TTI yw gwrando'n ofalus ar ddiodefwyr a'u hannog i fyfyrion ar yr hyn sydd ei angen arnynt er mwyn teimlo'n well a symud ymlaen. Wrth egluro'r cefndir, mae'n bwysig hefyd fod y TTI yn esbonio natur Gorchmynion Atgyfeirio a'r math o waith y bydd yn ofynnol i'r plentyn ei wneud i'w helpu i ymatal rhag troseddu yn y pen draw. Drwy'r broses hon, bydd diodefwyr yn aml yn cynnig y syniad o gyfathrebu â'r plentyn eu hunain. Mae hyn yn osgoi'r perygl i'r diodefwr deimlo ei fod yn cael ei wahodd i gymryd rhan ym mhroses y plentyn er lles y plentyn neu'r TTI, yn hytrach na gwneud ei ddewis ei hun ar sail ei anghenion. Bydd angen i ddiodefwyr gael gwybodaeth glir am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ac amser i benderfynu, heb bwysu arnynt.

Cysylltu â diodefwyr

- 6.5 Wrth gysylltu â diodefwyr, rhaid cydymffurfio'n llwyr bob amser â Chod y Dioddefwyr a gweithredu'n sensitif ac yn unol ag ymarfer gwrthwahaniaethol. Bydd y TTlau wedi cytuno ar brosesau i sicrhau bod unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â chysylltu â diodefwyr wedi cael hyfforddiant arbenigol priodol, yn cynnwys ymwybyddiaeth o ddiodefwyr, ymarfer gwrthwahaniaethol a dulliau adferol. Hefyd mae angen ystyried unrhyw gysylltiad a gafodd diodefwyr yn barod â gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr er mwyn osgoi dyblygu ac achosi gofid diangen.
- 6.6 Oni bai fod y diodefwr wedi nodi fel arall, dylai'r TTI gysylltu â'r diodefwr mor fuan â phosibl ar ôl y dedfrydu. Fel arfer bydd yn fanteisiol anfon llythyr cychwynnol gan amgáu taflen wybodaeth a dilyn hynny drwy gysylltu'n bersonol dros y ffôn, i gynnig ymweliad neu gyfarfod fel y bo'n briodol. Bydd yn bwysig bod diodefwyr yn cael cyfle, heb orfod gofyn am hynny, i gyfarfod wyneb yn wyneb â Gweithiwr Cyfiawnder Adferol neu Weithiwr Cyswllt Dioddefwyr y TTI (gweithiwr y TTI). Bydd gweithiwr y TTI yn egluro ei rôl, yn diweddarau'r diodefwr ar y canlyniad o'r llys ac wedyn yn ei wahodd i siarad am y trosedd a'i ganlyniadau, os yw'n dymuno. Drwy wrando'n

ofalus a thrafod yr anghenion sy'n codi o'r trosedd (er enghraifft, yr angen am dawelwch meddwl, cydnabyddiaeth, esboniad neu ymddiheuriad), gall y dioddefwr sylweddoli mai'r unig ffordd i ddiwallu'r anghenion hynny fydd cyfathrebu â'r plentyn a wnaeth niwed iddo. Wedyn gall gweithiwr y TTI egluro'r broses a'r dewisiadau sydd ar gael. Mae'n bwysig bod esboniadau o Orchmynion Atgyfeirio a'r opsiynau ar gyfer cyfranogi gan ddiodefwyr yn glir, yn ddiuedd ac yn amserol. Gellir gwahodd y dioddefwr i ystyried y manteision posibl sydd mewn prosesau adferol iddo ef, yn cynnwys y cyfle i roi gwybod i'r plentyn am yr effaith a gafodd y trosedd a gofyn cwestiynau a cheisio sicrwydd. Os bydd y dioddefwr yn dewis peidio â chymryd rhan yn y panel troseddwr ifanc ond yn dewis ystyried dull adferol uniongyrchol/anuniongyrchol arall, yna rhaid hwyluso hyn yn unol â chanllawiau'r Cyngor Cyfiawnder Adferol.

Cynorthwyo dioddefwyr

- 6.7** Bydd angen rhoi ystyriaeth i natur a graddau'r niwed a achoswyd gan y trosedd ac i anghenion y dioddefwr os yw'n agored i niwed yn ogystal ag unrhyw wasanaethau cymorth sydd wedi'u darparu eisoes. Dylid darparu unrhyw wybodaeth berthnasol am wasanaethau cymorth i ddiodefwyr fel y bo'n briodol, yn unol â Chod y Dioddefwyr. Os bydd diodefwyr yn penderfynu dod i gyfarfod o'r panel, dylid eu gwahodd i ddod â rhywun i'w cynorthwyo, os ydynt yn dymuno. Fel arfer, dylai diodefwyr ifanc ddod â rhiant/gofalwr a/neu gynorthwydd gyda nhw ac, os ydynt o dan 16 oed, rhaid cael cydsyniad gan eu rhiant neu eu gofalwr. Bydd yr aelod panel o'r TTI, wrth baratoi'r adroddiad i'r panel, yn gwneud asesiad risg cyffredinol. Wrth drefnu cyfarfod o'r panel lle bydd diodefwyr yn bresennol, rhaid cynnal asesiad risg penodol ar y rhai a fydd yn cymryd rhan. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae asesiad yn dangos bod risg i ddiogelwch y diodefwyr, plentyn neu unrhyw un arall sy'n cymryd rhan, gellir penderfynu peidio â chynnig yr opsiwn o fod yn bresennol yng nghyfarfod y panel i'r diodefwyr. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid rhoi esboniad i'r diodefwyr a sicrhau bod opsiynau eraill ar gael o hyd i gymryd rhan ym mhroses y panel.
- 6.8** Pan fydd diodefwyr yn dewis bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r panel, dylid ymgynghori'n llawn â nhw ynghylch amser a lleoliad y cyfarfod, a dylid ei drefnu er hwylustod i'r diodefwyr. Dylid amlinellu strwythur cyfarfod y panel i'r diodefwyr a dylid trafod ei gyfraniad ynghyd ag unrhyw ffordd addas a dichonol i wneud iawn. Os yw'r TTI yn rhag-weld y bydd materion personol sensitif yn cael eu trafod â'r plentyn a'r teulu mewn cyfarfod penodol o'r panel, mae'n bosibl na fydd yn briodol i'r diodefwyr aros drwy gydol y cyfarfod. Dylid trafod hyn yn llawn â'r diodefwyr a chytuno arno ymlaen llaw.
- 6.9** Gellir rhannu manylion am gynnwys y contract a chynnydd y plentyn â'r diodefwyr, os bydd yr holl bartion yn cytuno ar hyn ac yn rhoi cydsyniad ysgrifenedig. Dylid dileu manylion personol, yn cynnwys cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni, problemau iechyd corfforol a meddyliol, manylion unrhyw driniaeth neu gwnsela y mae'n ei gael a manylion personol am bobl heblaw'r plentyn, e.e. am aelodau o deulu'r plentyn. Os na fydd y plentyn yn cydsynio, yr unig wybodaeth a ddatgelir am y contract, neu delerau arfaethedig y contract, fydd hynny sy'n ddigon i alluogi'r diodefwyr i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth i gymryd rhan ym mhroses y Gorchmynion Atgyfeirio. Ni cheir datgelu i'r diodefwyr unrhyw wybodaeth sydd yn y contract nad yw'n dod o dan y categori hwn. Er enghraifft, bydd angen i'r diodefwyr gael gwybod am unrhyw delerau yn y contract sy'n golygu y bydd cyfathrebu rhyngddo ef a'r plentyn ond nid

yw'n debygol y bydd angen iddo wybod am ofyniad yn y contract sy'n ymwneud â threfniadau gweithio di-dâl. Os bydd y dioddefwr yn dangos diddordeb mewn cwrdd â'r plentyn, ond nad yw'n dymuno neu'n gallu dod i gyfarfod cychwynol y panel, mae opsiynau eraill ar gael, er enghraifft, drwy ddod i un o gyfarfodydd cynnydd y panel neu gymryd rhan mewn proses adferol arall fel cynhadledd cyfiawnder adferol, er enghraifft, neu gyfryngu anffurfiol.

- 6.10** Os yw dioddefwr yn dymuno dod i gyfarfod o'r panel, dylid ei holi am y ffordd orau i'w gynorthwyo. Os bydd y panel yn cytuno ar hynny, gall ddewis dod â ffrind, perthynas neu unrhyw un arall o'i ddewis, yn cynnwys cynorthwydd o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr lleol. Dylid ymgynghori hefyd â chynorthwywyr dioddefwyr wrth drefnu amseroedd cyfarfodydd a rhoi cyfle iddynt drafod strwythur cyfarfod y panel a'u cyfraniad. Bydd y TTI am ystyried effaith presenoldeb unrhyw gynorthwydd ar ddynameg y cyfarfod o'r panel a gwneud unrhyw baratodau mewn ymateb i hynny.
- 6.11** Os bydd y dioddefwr yn dewis peidio â dod i gyfarfod o'r panel ond yn dymuno i'w farn gael ei mynegi, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd yn bosibl i Weithwyr Cyfiawnder Adferol neu Weithwyr Cyswllt Dioddefwyr y TTI wneud hyn, neu gall y dioddefwr ddarparu datganiad i'w gyflwyno yn y cyfarfod o'r panel a fydd, er enghraifft, yn disgrifio effaith y trosedd ac yn amlinellu ei farn am ffyrdd o wneud iawn. Fel arall, mae'n bosibl y bydd y dioddefwr yn dymuno cael aelod o'i deulu neu ffrind i'w gynrychioli yng nghyfarfod y panel os yw'n teimlo nad yw'n gallu bod yn bresennol ei hun. Os bydd rhywun yn dirprwyo drosto, dylid cynnal asesiad risg hefyd.
- 6.12** Dylid cynnwys elfen o wneud iawn ym mhob contract. Dylai hyn fod yn iawn i'r dioddefwr neu, os na ellir pennu dioddefwr neu os nad yw'r dioddefwr yn dymuno cymryd rhan, yna dylai fod yn iawn i'r gymuned leol. Os nad yw'r dioddefwr yn bresennol yng nghyfarfod y panel, bydd yn bwysig egluro pa fath o iawn, os oes un, y byddai'r dioddefwr yn ei groesawu. Fodd bynnag, bydd yn hollbwysig peidio â chodi disgwyliadau na fydd modd eu gwireddu. Os oes bwriad i wneud iawn yn uniongyrchol, drwy lythyr ymddiheuro, er enghraifft, rhaid i hynny ddigwydd yn unol â dymuniadau'r dioddefwr. Rhaid goruchwyllo gweithgarwch gwneud iawn bob amser¹⁸ a darparu adroddiad am y rhan y mae'r plentyn wedi'i chymryd ynddo i'r panel troseddwyr ifanc.
- 6.13** Mae'n bwysig na fydd unrhyw ddioddefwr neu gynorthwydd i ddioddefwr yn ysgwyddo costau o ganlyniad i ddod i gyfarfod o'r panel. Dylai'r TTI ad-dalu unrhyw gostau teithio sylfaenol a dylid ystyried atebion ymarferol i unrhyw anghenion gofal plant. Bydd swm y costau teithio a gaiff eu had-dalu yn dibynnu ar ffactorau lleol, ond dylai gynnwys costau trafndiaeth gyhoeddus dosbarth cyffredin, cost petrol a'r gost leol arferol am ofal plant. Os oes gan rywun anabledd, dylid darparu cludiant a chymorth priodol i'w alluogi i ddod i bob cyfarfod o'r panel.

¹⁸ Mewn achosion lle cyflawnwyd y trosedd yn y cartref ac mai'r iawn a gytunir yw bod y plentyn neu berson ifanc yn helpu gyda gwaith tŷ, gall fod yn ystyrlon i'r prif ofalwr ei oruchwyllo, ar ymrod ei fod yn barod i adrodd yn ôl i'r TTI a'r panel ar gynnydd y plentyn neu'r person ifanc hwnnw.

Dioddefwyr corfforaethol

6.14 Lle mae busnesau neu sefydliadau eraill, fel ysgolion neu adrannau awdurdod lleol, wedi dioddef troseddau, dylid gwahodd rhywun o'r busnes neu'r sefydliad y mae'r trosedd wedi effeithio arno'n uniongyrchol i fod yn bresennol yng nghyfarfod y panel. Os na fydd cynrychiolydd yn bresennol, dylid nodi yn yr adroddiad i'r panel unrhyw resymau am beidio â chymryd rhan sy'n gysylltiedig â'r plentyn. Lle gwelir bod dioddefwyr corfforaethol yn ddiodefwyr cyson e.e. archfarchnadoedd neu siopau lleol, dylai TTIau gydgyssylltu â nhw i gytuno ar ffyrdd i wneud iawn e.e. helpu cwsmeriaid i roi nwyddau mewn bagiau. Rhaid arfer gofal a sensitifwydd wrth gysylltu â dioddefwyr corfforaethol, gan fod troseddau sy'n ymddangos yn fach fel dwyn o siopau ac ysgrifennu graffiti yn gallu cael effaith sylweddol ar unigolion yn y sefydliad, er enghraifft, drwy beri gofid iddynt neu wneud iddynt deimlo'n agored i niwed.

Gwneud iawn ariannol

6.15 Gellir cynnwys iawn ariannol gan y plentyn yn y contract os yw'n briodol a bod yr holl bartïon yn cytuno ar hynny.

Dioddefwyr ifanc

6.16 Os cysylltir â dioddefwyr sy'n blant a'u rhieni neu ofalwyr, dylai hynny gael ei wneud gan weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol gan arfer gofal. Dylid cael cydsyniad gan eu rhieni neu ofalwyr a dylid cynnig cymorth ychwanegol i ddiodefwyr ifanc i'w galluogi i gymryd rhan os ydynt yn dymuno. Mathau posibl o gymorth yw trefnu i aelodau eraill o'r teulu neu gefnogwyr fod yn bresennol yng nghyfarfod y panel ac opsiynau eraill fel cysylltiadau fideo, cynadledda ffôn neu gyfleusterau drych unffordd lle maent ar gael. Mae'n ddigon posibl bod y troseddwr yn ddiodefwyr ei hun, neu iddo fod yn ddiodefwyr yn y gorffennol, ac, os felly, dylid ystyried a yw hyn wedi dylanwadu neu beidio ar ei ymddygiad troseddol. Dylid rhoi sylw i hyn yn yr adroddiad i'r panel gan roi manylion y mesurau cymorth.

Gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr

6.17 Mae'n bwysig bod TTIau yn adolygu ac yn diweddarau protocolau yn rheolaidd gyda gwasanaethau lleol i ddiodefwyr. Os bydd diodefwyr yn cydsynio, gall TTIau atgyfeirio diodefwyr i sylw sefydliadau i gael cymorth cyn ac ar ôl cyfarfodydd y panel, ac yn ystod y cyfarfodydd mewn rhai achosion. Mewn rhai achosion, gellir cael cydgysylltu parhaus i drefnu cymorth i ddiodefwyr. Mewn achosion eraill, bydd y diodefwyr eisoes yn cael cymorth gan wasanaethau.

6.18 Dylai'r TTI gymryd camau rheolaidd i fonitro barn a phrofiad diodefwyr a'u bodlonrwydd ar Orchmynion Atgyfeirio, panelau troseddwr ifanc ac ymyriadau eraill yng nghyswllt cyfiawnder adferol. Dylai adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau gael ei drafod yn rheolaidd ar lefel y rheolwyr yn y TTI a'i ystyried wrth gynllunio gwelliannau i'r gwasanaeth a gynigir i ddiodefwyr.

7. Asesu plant

- 7.1** Dylai'r TTI gymryd camau buan i neilltuo gweithiwr ar gyfer pob plentyn sydd ar Orchymyn Atgyfeirio. Dylai'r gweithiwr gwrdd â'r plentyn a'i riant/rhieni/gofalwr/gofalwyr cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y gwrandawriad llys. Yn y cyfarfod hwn, dylai gweithiwr y TTI roi esboniad clir o'r Gorchymyn Atgyfeirio a gweithdrefnau'r panel, yn cynnwys hawliau a dewisiadau'r plentyn, a chychwyn asesiad o'r plentyn gan ddefnyddio Asset Plus. Dylid parhau i ymgysylltu â'r plentyn yn y cyfnod rhwng y gwrandawriad llys a chyfarfod cychwynol y panel er mwyn parhau i'w symbylu a'i ysgogi. Gellir gwneud defnydd adeiladol o'r amser hwn i baratoi'r plentyn at gyfarfod cychwynol y panel a disgrifio ac ystyried prosesau adferol.
- 7.2** Dylai gweithiwr y TTI lunio adroddiad i'r panel troseddwr ifanc wedi'i seilio ar:
- yr asesiad Asset Plus a fydd yn cynnwys dadansoddiad o'r trosedd a'i ganlyniadau;
 - unrhyw ddadlennu ymlaen llaw gan Wasanaeth Erllyn y Goron;
 - asesiad o ddymuniadau presennol y dioddefwr o ran gwneud iawn ac ymyriadau cyfiawnder adferol;
 - gwybodaeth o ffynonellau perthnasol eraill fel cofnodion achos y TTI, asesiadau arbenigol a gwybodaeth a gafwyd gan asiantaethau eraill.
- 7.3** Bydd yn bwysig bod yr adroddiad yn cynnwys yn llawn unrhyw sylwadau cynghori a gafwyd gan y llys dedfrydu mewn perthynas â meysydd sy'n peri pryder y gofynnwyd i'r panel eu hystyried. Dylid rhoi gwybod i'r panel am gryfderau'r plentyn ac unrhyw ffactorau allweddol o ran ymatal rhag troseddu. Dylai'r rhain gael eu hadlewyrchu wedyn yn y contract a gytunir rhwng y plentyn a'r panel. Gellir amlinellu yn yr adroddiad y gwaith sydd wedi'i wneud i gynnwys y dioddefwr yn y broses a nodi'r math o iawn a all fod yn fwyaf priodol yn unol â dymuniadau'r dioddefwr. Hefyd dylid nodi'n glir yn yr adroddiad i'r panel beth yw lefel yr ymyriadau sydd wedi'u hargymell ar gyfer yr elfennau adsefydlu yn y contract yn unol â'r Dull Graddedig.
- 7.4** Dylai'r adroddiad fod yn gytbwys, yn ddiuedd, yn fanwl ac yn ddadansoddol, heb iaith wahaniaethol na stereoteipiau. Dylid ei wirio a dylid sicrhau bod y ffeithiau sydd ynddo'n gywir a'i fod yn ddealladwy i'r plentyn a'i riant/gofalwr. Ni ddylid gwneud argymhellion penodol yn yr adroddiad am gynnwys y contract. Mater i'w gytuno gan aelodau'r panel yw hyn ynghyd â'r plentyn ac, os yw'n briodol, ei riant/gofalwr. Dylai aelodau'r panel gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfleoedd i wneud iawn ac ymyrryd sydd ar gael ar gyfer ei benderfyniadau. Gellir cynnwys y wybodaeth hon yn y contract ar gyfer unrhyw achos.
- 7.5** Dylid trefnu i'r adroddiad i'r panel fod ar gael i holl aelodau'r panel cyn diwrnod y cyfarfod o'r panel er mwyn rhoi digon o amser i aelodau'r panel i'w ddarllen a myfyrio ar ei gynnwys cyn cyfarfod y panel. Dylid dosbarthu'r adroddiad yn unol â phrotocolau lleol i sicrhau cyfrinachedd a chydymffurfio â gweithdrefnau i ddiogelu data.

8. Cyfarfodydd cychwynnol y panel

Mae'r bennod hon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Trosolwg
- Penderfynu ar bresenoldeb
- Trefnu cyfarfodydd y panel
- Cyfarfod y Panel
- Rôl y plentyn
- Rôl y rhiant/rhieni/gofalwr/gofalwyr
- Cynnwys y Contract
- Gwneud iawn
- Ymyriadau
- Gweithgareddau gwirfoddol
- Cytuno ar y contract
- Cyfnod y contract
- Methu â chytuno ar gontract
- Cynnal cyfarfodydd y panel
- Delio â diffyg presenoldeb
- Iechyd a diogelwch

Trosolwg

- 8.1 Rhaid cynnal cyfarfod cychwynnol y panel yn amserol gan gloriannu anghenion y plentyn a'r risgiau y mae'n eu hachosi. Ni fydd cyfnod y gorchymyn yn dechrau nes bydd y contract wedi'i gytuno a'i lofnodi: mae hyn yn tanlinellu'r pwysigrwydd o gynnal cyfarfod cyntaf y panel yn amserol. Yn y cyfamser, mae'n bwysig peidio â cholli cyfleoedd i ymgysylltu â'r plentyn a'i symbylu, oherwydd gallai hyn arwain at golli ysgogiad a chreu mwy o berygl o aildroseddu. Yn y cyfnod cyn cyfarfod cychwynnol y panel, gellir hefyd gysylltu â'r dioddefwr am y tro cyntaf er mwyn darparu gwybodaeth am broses y Gorchymyn Atgyfeirio ac, os yw'n briodol, dechrau trafod y cysyniad o brosesau adferol (oni bai fod y dioddefwr wedi gofyn yn benodol am lonydd ac wedi mynegi nad yw am i neb gysylltu ag ef).
- 8.2 Prif ddibenion cyfarfod cychwynnol y panel yw galluogi'r plentyn i gydnabod cyfrifoldeb, deall effaith ei ymddygiad troseddol ar y dioddefwr ac eraill, trafod sut y gallai ddymuno gwneud iawn am y niwed y mae wedi'i achosi (cytuno i wneud iawn am niwed) a chytuno'n ffurfiol ar y contract gyda'r panel. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae angen paratoi'n drylwyr cyn cyfarfod y panel. Yn ystod y cyfarfod, bydd angen hefyd i aelodau'r panel arfer sgiliau ymgysylltu effeithiol. Bydd angen iddynt

ddefnyddio eu sgiliau adferol i ymgysylltu â'r plentyn, gan sicrhau bod y rheini sy'n bresennol yn y cyfarfod yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed, a chynnwys pawb wrth gytuno ar y ffordd ymlaen.

- 8.3 Bydd yn hanfodol bod cyfarfod cychwynnol y panel yn cael ei gynnal yn effeithiol er mwyn darparu proses adferol sy'n rhoi sylw i anghenion a dymuniadau dioddefwyr yn ogystal â'r plentyn. Bydd yn ddymunol i'r dioddefwr gael ei gynnwys yn y cyfarfod cychwynnol ac i'w lais gael ei glywed ym mha ffordd bynnag y mae'n teimlo sydd orau. Fodd bynnag, os bydd yn dewis peidio â chymryd rhan, ni ddylai hyn fod yn rhwystr iddo gymryd rhan yn ddiweddarach. Dylai'r TTI sicrhau bod y dioddefwr yn gallu cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon, os yw'n dymuno, drwy gydol cyfnod y gorchymyn oni bai ei fod wedi gofyn yn benodol am lonydd a mynegi nad yw am i neb gysylltu ag ef. Ceir gwybodaeth fanylach am gynnal cyfarfodydd o'r panel, ac am rolau cyfranogwyr, yn y deunydd hyfforddi ar hwyluso cyfiawnder adferol i aelodau panelau troseddwr ifanc.
- 8.4 Yn olaf, rhaid peidio â defnyddio cyfarfod y panel fel cyfle i gynnal 'ail dreial'. Rhaid derbyn ffeithiau'r achos, fel y mae'r llys wedi penderfynu. Rhaid canolbwyntio yng nghyfarfod y panel ar ganlyniadau'r trosedd i'r dioddefwr ac i'r gymuned ehangach, sut a pham y cafodd y trosedd ei gyflawni, sut y gwneir iawn am y niwed a beth yw'r ffordd orau i helpu'r plentyn i fyw bywyd cadarnhaol a chynhyrchiol.

Penderfynu ar bresenoldeb

Y rheini y mae'r llys wedi gorchymyn iddynt fod yn bresennol

- 8.5 Dylai'r Gorchymyn Atgyfeirio gan y llys gynnwys manylion y plentyn ac unrhyw riant/gofalwr sydd wedi'i orchymyn i fod yn bresennol.

Y rheini sy'n bresennol o'u gwirfodd

- 8.6 Dylai'r TTI sicrhau bod dioddefwyr y gellir eu hadnabod, a chynrychiolwyr yr holl ddiodefwyr corfforaethol, yn cael eu hannog i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel fel y bo'n briodol, oni bai fod cynghorydd y panel o'r TTI yn asesu y byddai eu presenoldeb yn peri risg i ddiogelwch neu les y dioddefwr neu gyfranogwyr eraill.
- 8.7 Gall diodefwyr a'r plentyn gael cefnogwr sy'n oedolyn o'u dewis gyda nhw. Dylai TTIau hwyluso presenoldeb cefnogwyr oni bai fod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu bod hyn yn amhriodol. Hefyd gellir gwahodd pobl eraill yr aseswyd eu bod yn cael dylanwad cadarnhaol ar fywyd y plentyn i fod yn bresennol, er enghraifft, gweithiwr allweddol. Rhaid i'r panel gytuno ar benderfyniadau ynghylch pwy a gaiff fod yn bresennol.

Cynrychiolwyr cyfreithiol

- 8.8 Ni fydd y plentyn yn cael cynrychiolaeth gyfreithiol yng nghyfarfodydd y panel ac **ni chaiff** cefnogwyr weithredu fel cynrychiolwyr cyfreithiol. Byddai hynny'n gallu llesteirio'r broses o gynnwys y plentyn yn uniongyrchol a'i alluogi i gymryd cyfrifoldeb am ei drosedd a'i ymddygiad yn y dyfodol. Gall cyfreithwyr fod yn bresennol os ydynt yn rhieni, yn ofalwyr neu'n gefnogwyr ond dylid cynorthwyo'r plentyn i siarad drosto'i hun drwy gydol proses y panel troseddwr ifanc.

Trefnu cyfarfodydd y panel

- 8.9 Yn aml bydd angen cynnal cyfarfodydd y panel gyda'r hwyr neu ar benwythnosau ac mewn lleoliadau hygyrch, fel na fydd y plentyn, aelodau o deuluoedd, aelodau'r panel troseddwy'r ifanc a dioddefwyr sy'n gweithio, yn derbyn addysg neu'n cyflawni ymrwymadau eraill yn ystod y dydd yn cael eu hatal rhag bod yn bresennol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod TTIau yn cofio y bydd ymrwymadau gyda'r hwyr gan rai darpar gyfranogwyr ond y gallent fod ar gael yn ystod y dydd. Dylid ymgynghori â dioddefwyr a'u cefnogwyr ynghylch dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd yr un pryd â'r plentyn, teuluoedd ac aelodau'r panel troseddwy'r ifanc, er mwyn rhoi'r cyfle mwyaf i bennu amser sy'n addas i'r holl gyfranogwyr. Dylid trefnu cyfarfodydd y panel er hwylustod i ddiodefwyr sy'n dymuno bod yn bresennol ond ni ddylid eu cynnal yn ystod unrhyw ddarpariaeth o addysg, hyfforddiant neu waith y mae'n ofynnol i'r plentyn ei derbyn.
- 8.10 Yn yr un modd, dylai TTIau ystyried anghenion a dewisiadau dioddefwyr wrth ddewis y lleoliad ar gyfer y cyfarfod. Yn gyffredinol, dylai'r lleoliadau fod yn y gymuned, yn anffurfiol a heb gysylltiad â sefydliad, er enghraifft, canolfannau chwaraeon a hamdden cymunedol, canolfannau addysg oedolion, canolfannau teuluol, clybiau ieuentid ac ysgolion, yn hytrach nag adeiladau'r TTI neu orsafoedd heddlu. Er hynny, mewn rhai achosion, yn enwedig lle mae un o'r cyfranogwyr yn debygol o fod yn hawdd ei wylltio, dylid cynnal asesiad risg ac, os oes pryderon ynghylch diogelwch, dylid pennu adeilad priodol.
- 8.11 Gorau oll os bydd manau aros ar wahân i'w defnyddio gan y plentyn, ei deulu, dioddefwyr a'u cefnogwyr. Dylai pob lleoliad fod yn ddiogel ac yn hygyrch i aelodau'r panel troseddwy'r ifanc, y plentyn, y teulu a dioddefwyr. Rhaid **peidio** â chynnal cyfarfodydd y panel yng nghartrefi pobl gan y byddai hyn yn creu anghydbwysedd a thuedd.
- 8.12 Mae ffactorau amgylcheddol yn bwysig ar gyfer cynnal cyfarfodydd effeithiol o'r panel. Gall ffactorau fel trefn yr ystafell fod yn gyfrwng i greu amgylchedd diogel a chydawns lle bydd yr holl bartïon yn gallu siarad yn ddirwystr ac ymgysylltu â'r panel. Mae'r defnydd o fyrddau'n gallu creu rhwystrau i ymgysylltu tra bydd eistedd mewn cylch mewn awyrgylch hamddenol yn gallu hwyluso ymgysylltu. Mae hefyd yn bwysig bod aelodau'r panel yn ystyried rhwystrau a allai gael eu creu gan y math o ddillad a wisgir. Rydym yn awgrymu gwisgo dillad hamddena taclus er mwyn cael yr ymgysylltu gorau posibl.
- 8.13 Dylid ymgynghori â chyfranogwyr sydd ag anghenion arbennig, fel anabled, neu rai nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n eu galluogi i gymryd rhan yn llawn ac yn gyfartal.

Cyfarfod y Panel

- 8.14 Pa un a fydd y dioddefwr yn dod i gyfarfod o'r panel neu beidio, mae holl gyfarfodydd y panel yn gyfarfodydd adferol, ac mae'n bwysig bod yr aelodau panel gwirfoddol sy'n hwyluso cyfarfod y panel yn arddel ethos, gwerthoedd ac egwyddorion adferol ac yn dilyn proses adferol fel yr un sydd wedi'i hamlinellu, er enghraifft, yn hyfforddiant y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid i Hwyluswyr Cyfiawnder Adferol a'r hyfforddiant ar Weinyddu Paneli. Os na fydd y dioddefwr yn bresennol, mae'n debygol y bydd rhiant neu ofalwr y plentyn yn ddiodefwr eilaidd i'r trosedd a,

hyd yn oed os bydd y plentyn yn bresennol ar ei ben ei hun, mae gwirfoddolwyr y panel yn cynrychioli'r gymuned a gallant helpu i fyfyrion ar y sgil-efeithiau niweidiol ehangach o droseddu.

8.15 Er mwyn i baneli fod yn adferol, mae angen i wirfoddolwyr y panel a chynghorwyr y TTI fabwysiadu egwyddorion a gwerthoedd y dull adferol sy'n cynnwys:

- **Natur wirfoddol y drefn:** yn achos dioddefwyr, mae cymryd rhan yng nghyfarfod y panel neu mewn proses adferol arall yn gwbl wirfoddol. Yn achos y plentyn, mae'r dewisiadau wedi'u cymryd oddi arno oherwydd ei weithredoedd ac nid yw cymryd rhan ym mhroses y Gorchmynion Atgyfeirio yn wirfoddol iddo ef. Er hynny, fe ddylid cynnig dewis iddo o ran y ffordd y mae'n dymuno gwneud iawn am y niwed y mae wedi'i achosi. Nid yw gorfodi'r plentyn i ymddiheuro, gwneud iawn yn uniongyrchol neu gyfathrebu â'r dioddefwr yn erbyn ei ewyllys yn debygol o fod yn gymorth i'r naill barti na'r llall.
- **Natur ddiuedd y panel:** dylai gwirfoddolwyr y panel osgoi bod yn bleidiol i un ochr yng nghyfarfod y panel. Eu pwrpas yw hwyluso'r broses gan ganolbwyntio ar y niwed sydd wedi'i achosi a sut y gellir delio ag ef a gwneud iawn amdano.
- **Niwtraled:** ni ddylai fod gan aelodau'r panel fuddiant personol mewn canlyniad penodol i broses y panel, a dylent, hyd y gellir, sicrhau perchnogaeth y cyfranogwyr dros y broses.
- **Cynhwysiant:** mae angen i wirfoddolwyr y panel aros yn hyblyg ac ymatebol er mwyn cwrdd ag anghenion unigol y rheini sy'n bresennol yng nghyfarfod y panel, gan addasu'r broses adferol i gynnwys yr arddulliau cyfathrebu a dysgu unigol a chwrdd ag unrhyw anghenion arbennig sydd gan y cyfranogwyr.
- **Parch:** bydd gwirfoddolwyr y panel yn modelu parch ac yn cynnal urddas a gwerth hanfodol pawb sy'n ymwneud â'r panel, heb ystyriaeth i'w gweithredoedd yn y gorffennol na'u hymagwedd bresennol.
- **Gwrando:** gwrando a chydabod persbectif unigryw pob person yw hanfod y broses gyfan. Mae'r broses adferol yn caniatáu i bawb deimlo bod ei lais yn cael ei glywed drwy greu amgylchedd diogel lle mae cyfranogwyr yn gallu siarad heb i neb dorri ar eu traws. Bydd gwirfoddolwyr y panel yn dangos chwilfrydedd parchus a bydd angen iddynt osgoi mynd ymhellach na hynny drwy fod yn ymchwiliadol neu'n waeth byth drwy groesholi.
- **Peidio â barnu:** mae angen i wirfoddolwyr y panel osgoi peri i gyfranogwyr deimlo eu bod yn cael eu barnu, boed drwy eu canmol neu eu beio. Drwy eistedd yn ôl ac ymatal rhag barnu, mae gwirfoddolwyr y panel yn caniatáu i gyfranogwyr ffurfio eu barn eu hunain.
- **Gonestrwydd:** rhaid i wirfoddolwyr y panel a staff y TTI aros yn onest ym mhob agwedd ar eu rôl, gan foddelu'r gwerth hwn i gyfranogwyr. Gellir meithrin ymddiriedaeth drwy roi gwybod i bawb am hynt y broses a thrwy sicrhau bod holl weithredoedd gwirfoddolwyr y panel a staff y TTI yn dryloyw.
- **Diogelwch:** mae'n bwysig na fydd y broses adferol yn gwneud rhagor o niwed. Diogelwch corfforol ac emosiynol y cyfranogwyr fydd y brif ystyriaeth i'r rheini sy'n ymwneud â'r panel.
- **Ymreolaeth:** mae'n bwysig bod gwirfoddolwyr y panel yn ymddiried yng ngallu cyfranogwyr y paneli i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i'r materion sydd o bwys iddynt. Rôl gwirfoddolwyr y panel a chynghorwyr y TTI yw sicrhau bod

pawb yn cael cyfle i gyfrannu at bennu canlyniadau'r panel, ac osgoi sefyllfa lle mae'r panel yn rhoi sêl bendith ar gontract sydd wedi'i benderfynu ymlaen llaw.

8.16 Mae'r model Trawsnewid Gwrthdaro ar gyfer ymarfer adferol yn seiliedig ar 5 thema:¹⁹

- **Thema 1: Clywed y naratif:** gan ddechrau â'r cwestiwn 'Beth ddigwyddodd?', bydd gwirfoddolwyr y panel yn annog pob cyfranogwr i rannu ei brofiad o'r trosedd a'i ganlyniad, yn ei eiriau ei hun.
- **Thema 2: Meddyliau a theimladau:** mae meddyliau a theimladau'n dylanwadu ar ymddygiad, ac mae annog y plentyn i gofio beth roedd yn ei feddwl a'i deimlo ar eiliadau allweddol cyn, yn ystod ac ar ôl y trosedd yn ei helpu i ddeall ei ymddygiad ei hun, ac yn creu empathi pan fydd yn clywed meddyliau a theimladau'r rheini sydd wedi profi effaith ei weithredoedd.
- **Thema 3: Sgîl-ffeithiau niweidiol:** er mwyn ei gymhell i gymryd cyfrifoldeb, mae'n bwysig bod y plentyn yn deall canlyniadau ei weithredoedd, a gall y panel ystyried pwy y mae'r trosedd wedi effeithio arnynt ac ym mha ffordd gyda'r cyfranogwyr.
- **Thema 4: Anghenion:** mae pob troseddu yn fynegiant o anghenion sydd heb eu diwallu, a thrwy ganfod beth yn union sydd ei angen ar bawb er mwyn teimlo'n well, gellir delio â'r niwed a achoswyd gan y trosedd, a lleihau'r perygl o aildroseddu.
- **Thema 5: Ffyrdd ymlaen:** os bydd yr anghenion sydd wedi arwain at y trosedd ac wedi deillio ohono yn cael eu gweld yn glir, yna bydd y contract yn fwy tebygol o gwrdd â'r anghenion hynny. Os oes modd, dylid annog y plentyn i awgrymu camau gweithredu a fyddai'n ei alluogi i wneud iawn am y niwed y mae wedi'i achosi ac osgoi troseddu yn y dyfodol.

Dylai'r themâu hyn fod yn sail i bob cyfarfod o'r panel.

Rôl y plentyn

8.17 Mae'r plentyn yn chwarae rhan ganolog yn y panel troseddwyr ifanc. Dylai'r plentyn gymryd rhan yn llawn yn y broses o gydgyhyrchu'r contract. Y plant yw'r 'arbenigwyr' ar eu bywyd eu hunain a dylid eu helpu i gyfrannu'n ystyrlon i gyfarfodydd y panel ac i gyflawni eu rôl.

8.18 Bydd paratoi'r plentyn ar gyfer cyfarfod o'r panel yn galw am ymdrech a medr ar ran gweithiwr achos y TTI. Dylid helpu'r plentyn nid yn unig i ystyried effaith ei ymddygiad troseddol ar eraill ond hefyd i ystyried beth yw ei gryfderau ei hun a'i weledigaeth ar gyfer dyfodol cadarnhaol. Bydd cymorth o'r fath yn hanfodol i alluogi'r plentyn i gymryd rhan yn llawn ym mhroses y panel.

¹⁹ Hopkins, B. (2014). *Restorative approaches in youth settings: practitioners manual*. Mortimer: Transforming Conflict.

Rôl y rhiant/rhieni/gofalwr/gofalwyr

8.19 Lle y bo'n briodol, bydd cyfrifoldeb gan rieni/gofalwyr i gymryd unrhyw gamau a allant i atal eu plentyn rhag troseddu. Mae eu cefnogaeth yn hanfodol i lwyddiant y gorchymyn ac i adsefydlu'r plentyn. Mae'n bwysig felly fod aelodau'r panel yn cofio'r angen i gynnwys rhieni/gofalwyr yn ystod gwrandawriad y panel a'u bod yn eu cymell i ddarparu cymorth gweithredol i'w plentyn er mwyn helpu i gyflawni'r contract. Gall fod yn briodol codi'r posibilrwydd o gynnig help ychwanegol drwy gymorth ac ymyriadau rhianta'r TTI. Mae'n bwysig nodi mai'r rhiant/gofalwr fydd dioddefwr y trosedd mewn rhai achosion ac y bydd hyn yn galw am ddealltwriaeth a chydnyddiaeth arbennig; rhaid sicrhau eu bod yn cael cynnig yr un cymorth â dioddefwyr eraill a bod eu hanghenion fel dioddefwyr yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad ydynt wedi dioddef yn uniongyrchol, mae'n debygol iawn y bydd troseddu'r plentyn wedi effeithio ar rieni/gofalwyr.

Cynnwys y Contract

8.20 Y ddwy elfen graidd ym mhob contract o dan Orchymyn Atgyfeirio yw:

- a) **gwneud iawn** i'r dioddefwr a/neu i'r gymuned ehangach a
- b) **rhaglen ymyriadau**, i'w chyflawni neu ei threfnu gan y TTI, sy'n delio â'r ffactorau sy'n debygol o fod yn gysylltiedig ag unrhyw aildroseddu.

Mewn achosion ar y trothwy carcharu, dylai **contract dwys** y Gorchymyn Atgyfeirio gynnwys cymorth a goruchwyliaeth ddwysach a gall gynnwys cyrffw a chyfyngiadau heb ddefnyddio dyfeisiau electronig.

Ym mhob achos, rhaid cyflwyno cynnwys y contract mewn iaith glir sy'n ddealladwy i'r plentyn ac i'w rieni/gofalwyr. Dylid osgoi defnyddio jargon ac acronymau bob amser drwy ddefnyddio iaith arferol.

8.21 Rhaid rhoi sylw mewn contractau i bresenoldeb y plentyn mewn addysg, hyfforddiant neu waith ac i'w arferion crefyddol. Dylai cynghorwyr y TTI sicrhau bod y panel yn cael gwybodaeth glir a chyfoes am yr ymrwymadau hyn, fel y gellir eu hystyried fel y bo'n briodol wrth gytuno ar gontractau.

Gwneud iawn

8.22 Mae gwneud iawn yn rhan annatod o'r Gorchymyn Atgyfeirio ac yn elfen allweddol ym mhob contract y mae'r panel yn cytuno arno. Lle y bo modd, dylai'r iawn gael ei seilio ar ddymuniadau'r dioddefwr; fel arall, gellir gwneud iawn i'r gymuned ehangach (lle mae aelodau'r panel yn cynrychioli'r gymuned), fel y bo'n briodol.

8.23 Hyd y gellir, dylai'r iawn i ddioddefwyr unigol gael ei bennu ar sail dymuniadau'r dioddefwr, gan roi sylw i gymesuredd. Gall yr iawn gynnwys esboniad, ymddiheuriad geiriol neu ysgrifenedig, trwsio difrod i eiddo, rhodd, ac ad-daliad ymarferol, yn cynnwys digolledu ariannol, am y niwed a achoswyd. Yn y cartref y cyflawnir cyfran helaeth o'r troseddau a gyflawnir gan bobl ifanc. Lle y bo'n briodol ac os bydd y prif ofalwr yn cytuno ar hynny, gellir gwneud iawn hefyd yn y cartref, a gall hyn gynnwys gweithgareddau fel helpu gyda'r gwaith tŷ, neu ymrwymadau, fel addo gwneud gwaith cartref.

- 8.24 Bydd yn bwysig bod y TTI yn ceisio cael gwybod cyn cyfarfod cychwynnol y panel pa iawn, os o gwbl, y byddai'r dioddefwr yn ei groesawu – yn enwedig lle mae'r dioddefwr wedi dewis peidio â bod yn bresennol yng nghyfarfod cychwynnol y panel, neu rai dilynol. Fodd bynnag, wrth weithio gyda dioddefwyr, dylai'r TTI osgoi codi disgwyliadau na ellir eu gwireddu. Rhaid i gynnwys y contract gael ei gytuno gan y panel troseddwr ifanc a'r plentyn, a dylai adlewyrchu galluoedd y plentyn a natur yr ymddygiad troseddol, yn ogystal â barn y dioddefwr.
- 8.25 Ni ddylid rhoi iawn uniongyrchol neu lythyr ymddiheuro i'r dioddefwr heb gael cydsyniad datganedig ganddo ymlaen llaw. Yn achos contractau sy'n cynnwys iawn ariannol, bydd yn hanfodol bod gweithdrefnau ariannol cadarn a dibynadwy ar waith gan y TTI er mwyn sicrhau bod yr iawn yn cael ei roi mewn ffordd ddiogel ac effeithlon.
- 8.26 Hyd yn oed os na fydd y dioddefwr yn cymryd rhan yng nghyfarfod cychwynnol y panel, gellir gwneud darpariaeth yn y contract i'r dioddefwr gymryd rhan wedyn yn y cyfarfodydd cynnydd neu mewn cyfarfodydd (cynadleddau) eraill ar gyfer cyfiawnder adferol fel cynhadledd cyfiawnder adferol, cyfryngu rhwng y dioddefwr a'r troseddwr neu gynhadledd grŵp teuluol, os bydd y dioddefwr yn cydsynio i hynny. Lle y bo'n briodol, gellir diwygio'r contract i alluogi ac adlewyrchu newid o'r fath mewn amgylchiadau.
- 8.27 Wrth ystyried iawn i'r gymuned ehangach, dylid gwneud plant yn ymwybodol o effaith eu hymddygiad troseddol ar eu gymuned a rhoi pwys ar eu galluogi i wneud iawn a dechrau o'r newydd. Bydd yn bwysig bod TTlau yn darparu nifer o wahanol raglenni ar gyfer gwneud iawn i'r gymuned leol sy'n cynnwys gweithgareddau y gall pobl ifanc eu cyflawni er lles y gymuned. Bydd y TTI yn ymgynghori â chymunedau lleol i ddatblygu gweithgareddau gwneud iawn i ddod â budd i'r ardal. Dylid ymgymryd â'r gwaith hwn mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, yn cynnwys timau plismona cymdogaeth cymunedol, i sicrhau ymgysylltu cydlynol ac ystyrion â'r gymuned. Gall aelodau o'r panel fod mewn lle da hefyd i awgrymu gweithgareddau perthnasol mewn cyd-destun cyffredinol ac mewn perthynas ag achosion penodol sy'n ymwneud â phlant.
- 8.28 Mae'n bwysig bod gweithgareddau i wneud iawn i'r gymuned ar gyfer plant unigol a gafodd Orchymyn Atgyfeirio yn ystyrion iddyn nhw. I'r perwyl hwn, gellir cynnwys y plentyn wrth benderfynu ar y math o iawn y bydd yn ei wneud. Bydd angen ystyried yr effaith ar y gymuned hefyd wrth ystyried gweithgareddau gwneud iawn. Gall hyn cynnwys gwaith corfforol (fel codi ysbwriel, dileu graffiti neu ôl fandaliaeth, neu helpu gyda gwelliannau eraill i'r amgylchedd neu gadwraeth) a/neu helpu pobl (fel gwaith gyda'r henoed neu bobl anabl, neu helpu i gyfleu negeseuon i blant eraill sydd mewn perygl o droseddu). Rhaid sicrhau na fydd gweithgareddau i wneud iawn i'r gymuned yn effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgol neu mewn gwaith a dylid cynnwys gweithgareddau gwneud iawn gyda'r hwyr neu ar benwythnosau .
- 8.29 Fel arfer bydd y gweithgareddau hyn yn llwyddo orau pan fydd gwerth y gwaith y mae'r plant yn ei gyflawni yn amlwg iddyn nhw ac i'w cymunedau. Yn aml mae plant sy'n troseddu yn derbyn nifer o wasanaethau sy'n ceisio gwella eu bywydau; mae gwneud iawn yn rhoi cyfle iddynt roi'n ôl i gymdeithas. Mae staff neu wirfoddolwyr sy'n goruchwylio gweithgareddau ymarferol i wneud iawn yn gallu dod yn fentoriaid ac yn fodolau rôl i'r plentyn.

- 8.30 Wrth bennu maint yr iawn i'r gymuned sydd i'w gynnwys yn y contract, fe ddylid ystyried dymuniadau'r dioddefwr ond y peth pwysicaf fydd sicrhau ei fod yn gymesur â difrifoldeb y trosedd. Bydd cyfnod y gorchmyn sydd wedi'i osod gan y llys wedi'i benderfynu'n bennaf ar sail difrifoldeb y trosedd. Mae canllaw isod ar yr oriau o wneud iawn y bydd paneli troseddwyr ifanc yn disgwyl eu cynnwys fel arfer mewn contractau o dan orchmynion o wahanol hyd sydd wedi'u gosod gan y llys. Gall ardaloedd lleol ddilyn y canllaw hwn i lywio penderfyniadau a wneir gan paneli troseddwyr ifanc. Fodd bynnag, mater i'r panel yw'r penderfyniad hwn yn y pen draw a bydd yn ystyried nifer o ffactorau gwahanol.

Cyfnod y gorchmyn	Oriau Gwneud iawn
3–4 mis	3–9 awr
5–7 mis	10–19 awr
8–9 mis	20–29 awr

Ar gyfer gorchmynion o 10–12 mis, dylai paneli troseddwyr ifanc gynnwys o leiaf 30 awr o weithgareddau gwneud iawn mewn contractau fel arfer; ac, mewn rhai achosion sy'n cyrraedd y trothwy carcharu, gall nifer mwy o lawer o oriau fod yn briodol.

- 8.31 Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn synhwyrol i'r gweithgarwch gwneud iawn fod yn dasg, fel ysgrifennu llythyr esbonio neu ymddiheuro neu greu rhodd i'r dioddefwr. Os felly, ni fydd angen pennu nifer penodol o oriau.

Ymyriadau

- 8.32 Dylid cael cyswllt rheolaidd rhwng y plentyn ac ymarferydd TTI yn unol â safonau a gytunwyd ar lefel leol a chenedlaethol. Pwrpas y cyswllt hwn fydd cyflawni'r ymyriadau a gytunwyd yn y contract. Nod yr ymyriadau hyn fydd atal aildroeddu ac mae hyn yn adlewyrchu prif nod y system cyfiawnder ieuenctid. Gall lefelau'r cyswllt gynyddu neu ostwng yn ôl yr angen a'r risg a asesir.
- 8.33 Dylai paneli troseddwyr ifanc allu dewis o ystod eang o ymyriadau i ffurfio pecyn o ymyriadau a fydd yn cynnwys gweithgareddau cadarnhaol, yn ôl yr anghenion ym mhob achos, gan ystyried lefel a math y troseddu. Gall yr ymyriadau gynnwys:

- rhaglenni ymddygiad troseddol
- cwnsela teuluol
- chwaraeon neu waith ieuenctid
- mentora
- asesu ac ymyriadau seiciatrig neu seicolegol
- rheoli dicter
- rhaglenni hamdden adeiladol
- diogelwch ffyrdd neu dân
- rhaglenni ymddygiad gwybyddol
- cyngor ar gyflogaeth neu yrfaeodd
- ymyriadau ymddygiad peryglus/sgiliau bywyd
- ymwybyddiaeth o ddioddefwyr
- proses adferol wedi'i hwyluso sy'n cynnwys y dioddefwr (ar ôl cael cydsyniad gan y ddau barti)
- rhaglenni camddefnyddio sylweddau (yn cynnwys alcohol a thoddyddion)
- rhaglenni ymwybyddiaeth o arfau
- gofyniad am bresenoldeb yn yr ysgol
- gofyniad i gadw draw oddi wrth leodedd neu bobl benodol
- cyrffiw (heb ei fonitro â dyfais electronig)
- presenoldeb mewn canolfan ymbresenoli

8.34 Mae'n bosibl y bydd aelodau paneli troseddwr ifanc a dioddefwyr hefyd yn gallu pennu gweithgareddau, ar sail eu gwybodaeth leol, a dylid eu hannog i awgrymu mathau o iawn ac ymyriadau i'w cynnwys mewn contractau sy'n gwneud defnydd o adnoddau cymunedol yn hytrach nag adnoddau'r TTI – ar ôl gwneud asesiadau risg priodol.

8.35 Rhaid sicrhau bod yr ymyriadau yn delio â'r problemau sy'n cyfrannu at ymddygiad troseddol y plentyn a hefyd yn cryfhau unrhyw ffactorau ymatal ac yn helpu'r plentyn i bontio i fywyd diogel heb droseddu lle bydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas. Bydd y TTI wedi canfod y problemau a'r ffactorau hyn yn ystod y broses asesu. Dylid seilio lefel yr ymyrraeth ar y Dull Graddedig.

8.36 Mewn achosion sy'n cyrraedd y trothwy carcharu lle mae'r llys wedi ystyried dedfryd o garchar, bydd yn **hanfodol** bod yr elfennau yng nghontract dwys y Gorchmyn Atgyfeirio yn darparu ymateb digonol a chadarn i'r trosedd ac i'r ffactorau sy'n creu perygl o droseddu. Mae'n ddigon posibl y bydd yn briodol pennu'r lefel gyswllt uchaf â'r TTI, yn cynnwys 25 awr yr wythnos o ymyriadau/gweithgareddau a gwneud iawn, yn debyg i opsiynau dwys eraill mewn dedfrydau cymunedol, ond ni ellir cynnwys monitro electronig. Rhaid i'r panel fod yn barod i atgyfeirio achosion o'r fath yn ôl i'r llys os methir â chytuno ar gontract boddhaol neu os oes diffyg cydymffurfio.

8.37 Yn achos plant sydd wedi'u cael yn euog o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, bydd yn ddymunol iddynt gael eu hasesu gan ddilyn y Canllawiau ar Berygl o Eithafiaeth (ERG+22). Gellir cael achlysuron hefyd lle bydd angen i blant na chafwyd yn euog o dan y Ddeddf Terfysgaeth gael eu hasesu ar sail ERG+22, lle mae cysylltiadau clir ag eithafiaeth neu lle mae pryderon mawr y byddant yn cael eu denu at derfysgaeth. Mae ERG+22 yn offeryn asesu cynhwysfawr a strwythuredig (mae +22 yn cyfeirio at y 22 o feysydd sydd yn yr asesiad ynghyd ag eraill sy'n berthnasol i'r unigolyn) a dylai gael ei gyflawni gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig. Bydd angen i'r panel troseddwr ifanc drafod y broses hon â'r plentyn er mwyn ystyried a ddylid cynnwys yr asesiad hwn yng nghontract y plentyn. Y ffactor hanfodol yma yw na ddylid cynnwys cydymffurfio ag asesiad ERG +22 yn y contract oni bai fod y plentyn yn cytuno ar hynny. Gan ystyried y risg ddichonol i'r plentyn ac oddi wrtho, mae'n

bosibl y bydd y panel yn dymuno annog y plentyn i ystyried ei gynnwys. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi cyhoeddi "*Community practice advice – managing extremism for under 18s*" ar y cyd â'r sector cyfiawnder ieuencid: bydd o gymorth i aelodau panel gwirfoddol ddal sylw ar y cyngor hwn ac iddo gael ei gynnwys mewn hyfforddiant. Mae'n debygol mai'n anaml iawn y bydd achosion o'r fath yn codi a gall fod yn ddoeth i'r TTI gyfarwyddo aelodau panel gwirfoddol cyn unrhyw achos o'r fath a chynnal ôl-drafodaeth ddigonol wedi i'r panel gyfarfod.

Gweithgareddau gwirfoddol

8.38 Gall y panel gytuno â'r plentyn ar weithgareddau gwirfoddol yn hytrach na rhai gorfodadwy. Er enghraifft, gellid adnabod anghenion o ran lles sydd y tu allan i gwmpas y Gorchymyn Atgyfeirio, un ai am fod cyfnod y Gorchymyn Atgyfeirio yn rhy fyr i roi sylw i'r holl anghenion hynny neu am y byddai gwneud hynny'n anghymesur â'r trosedd. Gall gweithgareddau gwirfoddol barhau ar ôl cyfnod y Gorchymyn Atgyfeirio hefyd er mwyn helpu'r plentyn ar ei daith dymor hwy at ddyfodol cadarnhaol ac i ymatal rhag troseddu. Gellir gofyn i'r TTI drefnu iddo dderbyn gwasanaethau a ddarperir gan wasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill. Dylid cofnodi unrhyw weithgareddau gwirfoddol ond rhaid gwahaniaethu'n glir rhyngddynt a'r rhaglen a geir yn y contract. Dylai'r panel ei gwneud yn glir i'r plentyn a'i rieni/gofalwyr nad yw'r agweddau gwirfoddol yn rhan o elfennau gorfodadwy y contract.

Cytuno ar y contract

8.39 Rôl y cynghorydd y panel o'r TTI yw darparu gwybodaeth a, lle y bo angen, cyngor. Fodd bynnag, cyfrifoldeb aelodau gwirfoddol y panel yw cytuno â'r plentyn ar y contract. Bydd yn bwysig hefyd fod panelau'n ystyried gwybodaeth a ddarparwyd gan y fainc dedfrydu, er enghraifft, gofyniad i dalu o dan Orchymyn Digolledu.

8.40 Dylid negodi'r contract â'r plentyn, nid ei orfodi arno. Dylid cymhwysu egwyddorion cydgynhyrchu at hyn. Bydd perchnogaeth y plentyn ar y contract yn hanfodol i sicrhau bod y Gorchymyn Atgyfeirio yn llwyddo i wneud iawn am niwed ac yn atal aildroseddu. Er mwyn hwyluso hyn, dylai'r adroddiad i'r panel gael ei ddarparu i'r plentyn a'i rieni/gofalwyr cyn gynted â phosibl cyn y gwrandawriad (ar yr un pryd ag i aelodau'r panel eu hunain). Bydd hyn yn galluogi'r plentyn a'i brif ofalwr i wybod am gynnwys yr adroddiad, ei wirio am gywirdeb a pharatoi at y drafodaeth ar yr adroddiad. Wrth rannu'r adroddiad, bydd angen i'r TTI ystyried unrhyw anghenion o ran llythrennedd, lleferydd, iaith neu gyfathrebu.

8.41 Gall fod yn fuddiol i'r panel drafod yr adroddiad am y plentyn cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, ni ddylai'r panel gytuno ar elfennau'r contract cyn y cyfarfod. Dylid trafod y rhain a chytuno arnynt gyda'r plentyn yn y cyfarfod ei hun, a dylent godi o ystyriaeth i'r anghenion sydd heb eu diwallu a arweiniodd at y trosedd. Mae'n bwysig bod contractau'n dangos dealltwriaeth o theori ymatal a'u bod yn canolbwyntio ar ddi-ddordebau a dyheadau'r plentyn, yn cynnwys datblygu gweithgareddau cadarnhaol.

8.42 Dylai contractau gael eu hysgrifennu mewn iaith glir heb jargon sy'n gwbl ddealladwy i'r plentyn. Rhaid darllen y contract yn uchel i'r plentyn. Rhaid i'r panel sicrhau bod y plentyn a'i brif ofalwr yn deall ei gynnwys a beth yw'r gofynion. Hefyd

dylid esbonio'n glir beth fydd y canlyniadau i'r plentyn o fethu â chydymffurfio â'r contract a dylid cael cadarnhad gan y plentyn ar bob cam ei fod yn deall. Dylid annog y plentyn i ofyn cwestiynau er mwyn cadarnhau ei fod yn deall y gofynion. Ar ôl cytuno ar y contract, rhaid iddo gael ei lofnodi gan y plentyn a chadeirydd y panel. Mae'n arfer dda i'r prif ofalwr lofnodi'r contract hefyd.

- 8.43 Rhaid rhoi copi o'r contract wedi'i lofnodi i'r plentyn. Rhaid rhoi copïau hefyd i'r rhiant/gofalwr ac i unrhyw un arall a fydd yn helpu'r plentyn i gydymffurfio. Yn ogystal â'r wybodaeth y mae gan ddiodeffwyr hawl i'w chael (gweler paragraff 6.7), gellir trefnu i gopïau o'r contract fod ar gael i ddiodeffwyr sy'n dymuno eu cael, os yw'r plentyn wedi cydsynio i hynny. Rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig gan y plentyn. Rhaid dileu manylion personol y plentyn fel ei gyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni, problemau iechyd corfforol a meddyliol, manylion unrhyw driniaeth neu gwrsela y mae'n ei gael a manylion personol am bobl heblaw'r plentyn, er enghraifft, am aelodau teulu'r plentyn, o'r contract cyn ei ddatgelu ym mhob achos. Dylid darparu copïau er gwybodaeth i'r llys dedfrydu.

Cyfnod y contract

- 8.44 Bydd cyfnod cydymffurfio'r Gorchymyn Atgyfeirio yn dechrau ar ddyddiad llofnodi'r contract yng nghyfarfod y panel a bydd yn para am y cyfnod sydd wedi'i ddatgan ar orchymyn y llys. Wedi i'r cyfnod penodedig ddod i ben, os yw wedi'i gwblhau'n foddhaol, fe derfynir y Gorchymyn Atgyfeirio (gweler 9.23–9.25 am ragor o wybodaeth am ddirymu'n gynnar).
- 8.45 Mae'n bwysig bod y plentyn neu'r person ifanc yn dechrau cyflawni'r gweithgareddau a gytunwyd yng nghontract y Gorchymyn Atgyfeirio **mor fuan â phosibl** ar ôl llofnodi'r contract er mwyn cynnal ei frwdfrydedd a'i ymdeimlad o weithredu a chyflawni.

Methu â chytuno ar gontract

- 8.46 Os na chytunir ar y contract yng nghyfarfod cychwynnol y panel, gellir cynnal cyfarfod pellach os yw'r panel yn credu y byddai hynny'n rhoi'r gallu i gytuno ar gontract. Bydd yn bwysig cynnal yr ail gyfarfod hwn mor fuan ag y gellir. Fodd bynnag, os ymddengys nad oes gobaidh o gytuno ar gontract, dylai'r panel hysbysu'r TTI y dylai achos y plentyn gael ei atgyfeirio'n ôl i'r llys yn ddi-oed er mwyn ystyried ailddedfrydu. Dylid esbonio hyn yn glir i'r plentyn ar ddechrau'r cyfarfod a sicrhau ei fod yn ei ddeall. Yn yr un modd, os bydd plentyn yn gwadu bod bai arno ef am y trosedd yng nghyfarfod y panel a'i fod yn gwrthod cymryd rhan yn y broses atgyfeirio, rhaid i'r panel beidio â chynnal trafodaeth ar fater yr euogfarn a rhaid atgyfeirio'r achos yn ôl i'r llys.

Cynnal cyfarfodydd y panel

- 8.47 Mae'n bwysig bod y plentyn, y rhieni a'r diodeffwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gyda pharch a thegwch. Dylai aelodau'r panel fod yn sensitif bob amser i wahanol anghenion y diodeffwyr, y plentyn a'i rieni/gofalwyr ac ymateb iddynt (er enghraifft, drwy ganfod unrhyw anawsterau cyfathrebu a sut i'w datrys ar ddechrau'r cyfarfod). Gall fod o gymorth i aelodau'r panel i fecanweithiau gael eu rhoi ar waith i

ofyn am adborth gan gyfranogwyr ar ôl cyfarfod y panel. Dylid cynnal ôl-drafodaeth ar ôl pob cyfarfod o'r panel lle bydd aelodau'r panel ynghyd â chynghorydd y panel troseddwyr ifanc yn myfrio ar y pethau a aeth yn dda yn ystod cyfarfod y panel a phethau i'w gwella.

Delio â diffyg presenoldeb

- 8.48** Dylai'r TTI roi cymorth a chyfarwyddyd priodol i'r plentyn cyn iddo fynd i gyfarfod cyntaf y panel. Os bydd y plentyn yn methu â bod yn bresennol yng nghyfarfod cychwynnol y panel, dylai'r aelod o'r TTI geisio cael gwybod y rheswm am hynny. Lle mae'n ymddangos bod sail resymol dros yr absenoldeb (er enghraifft, iechyd gwael) a bod gobaith rhesymol y bydd yn bresennol yn y dyfodol, dylid aildrefnu'r cyfarfod. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod hyn yn digwydd yn ddi-oed.
- 8.49** Y panel ac nid y TTI fydd yn penderfynu cyfeirio achosion yn ôl i'r llys. Dylai cynghorydd y panel o'r TTI roi adroddiad i'r panel am fethiant y plentyn i ddod i gyfarfod cychwynnol y panel gan egluro'r ymdrechion a gafwyd i sicrhau ei bresenoldeb ac unrhyw resymau y mae'r plentyn neu ei rieni/gofalwyr wedi'u cynnig am ei absenoldeb. Rhaid i'r TTI sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r holl ymdrechion i gysylltu â'r plentyn a'i rieni/gofalwyr. Dylai'r panel benderfynu wedyn a ddylid atgyfeirio'r achos yn ôl i'r llys neu a ddylid gohirio'r cyfarfod a'i gynnal ar ddyddiad arall. Lle mae'r panel o'r farn bod y rheswm yn annerbyniol, neu os na roddwyd rheswm, dylai'r panel atgyfeirio achos y plentyn yn ôl i'r llys er mwyn ystyried aildedfrydu, gan nodi'r resymau mewn ysgrifen. Rhaid i weithiwr achos y TTI adrodd i'r llys ar atgyfeirio'r achos yn ôl cyn gynted ag y bo'n gyfleus.
- 8.50** Lle mae'r prif ofalwr wedi cael gorchymyn i fod yn bresennol yng nghyfarfod y panel troseddwyr ifanc a'i fod yn methu â bod yn bresennol, dylai'r TTI ymchwilio i'r rheswm am hynny. Os bydd yn ymddangos bod sail resymol dros ei absenoldeb, gellir aildrefnu'r cyfarfod. Fodd bynnag, os bydd yn ymddangos nad oes rheswm da, ac nad oes gobaith y bydd yn bresennol yn y dyfodol, dylai'r panel atgyfeirio'r achos yn ôl i'r llys. Mae pwerau gan y llys i wneud Gorchymyn Rhianta neu weithredu'n unol ag adran 63 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980. Os yw'r plentyn o dan 16 mlwydd oed, ni chaiff y panel fynd ymlaen heb bresenoldeb y rhiant/gwarcheidwad neu oedolyn priodol arall i gynorthwyo'r plentyn.

Iechyd a diogelwch

- 8.51** Mae TTIau yn gyfrifol am sicrhau iechyd a diogelwch plant sy'n cyflawni gweithgareddau a gytunwyd mewn contractau o dan Orchymyn Atgyfeirio, dioddefwyr sy'n derbyn iawn uniongyrchol, ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig.
- 8.52** Bydd yn bwysig bod y TTI, ynghyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid iddo, yn ystyried yswirio rhag colledion sydd heb eu hyswirio fel arall sy'n ganlyniad i weithgareddau o dan Orchymyn Atgyfeirio. Dylid cynnwys gweithgareddau o dan Orchymyn Atgyfeirio yn y trefniadau yswirio y mae'r TTI wedi'u gwneud ar gyfer gorchymynion llys eraill.

9. Monitro cydymffurfiaeth, amrywio a dirymu gorchymynion

Mae'r bennod hon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- **Monitro cydymffurfiaeth â'r gorchymyn**
- **Diffyg cydymffurfio ac atgyfeirio yn ôl i'r llys**
- **Estyn cyfnod y gorchymyn er mwyn cyfiawnder**
- **Amrywio'r contract**
- **Dirymu'r gorchymyn er mwyn cyfiawnder**
- **Dirymu'r gorchymyn oherwydd newid mewn amgylchiadau**
- **Troseddu pellach yn ystod cyfnod y Gorchymyn Atgyfeirio**
- **Trosglwyddo'r Gorchymyn i'r Gwasanaeth Prawf pan fydd plentyn yn cyrraedd 18 mlwydd oed**

Monitro cydymffurfiaeth â'r gorchymyn

- 9.1 Rhaid i weithiwr achos y TTI gadw cofnod o gydymffurfiaeth y plentyn â'r contract. Bydd yr wybodaeth hon yn hollbwysig os bydd achos y plentyn yn cael ei atgyfeirio i'r llys oherwydd diffyg cydymffurfio â'r contract. Dylai'r cofnod fod yn deg a chytbwys a dylai ddisgrifio ymddygiad cadarnhaol a welwyd yn ogystal ag unrhyw enghreifftiau o anawsterau.
- 9.2 Rhaid i'r panel troseddwr ifanc gynnal cyfarfodydd cynnydd â'r plentyn yn rheolaidd fel y cytunir. Bydd nifer y cyfarfodydd cynnydd sydd eu hangen yn dibynnu ar gyfnod y contract a lefel yr oruchwyliaeth y credir bod ei hangen ym mhob achos. Ym mhob cyfarfod, dylai'r panel bennu dyddiad y cyfarfod nesaf.
- 9.3 Mae'n bosibl na fydd yn angenrheidiol i bawb o'r rheini a gymerodd ran yn wreiddiol (ac eithrio'r rheini y mae'r llys wedi gorchymyn iddynt fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y panel) fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cynnydd. Lle bynnag y bo modd, bydd yn ddymunol bod o leiaf un o aelodau gwirfoddol y panel a oedd yng nghyfarfod cychwynol y panel yn bresennol yn holl gyfarfodydd y panel er mwyn cael dilyniant. Fodd bynnag, mae'n **hanfodol** bod y gofyniad cyfreithiol yn cael ei fodloni a bod y panel troseddwr ifanc yn cynnwys o leiaf ddau aelod o'r panel troseddwr ifanc ac un aelod o'r TTI.
- 9.4 Rhaid i weithiwr achos y TTI ddarparu adroddiad cynnydd i'w drafod yn y cyfarfod. Dylid canolbwyntio yn y drafodaeth ar lwyddiant y plentyn wrth gydymffurfio â'r contract, a'r effaith a gafodd hynny. Dylid tynnu sylw hefyd at unrhyw anawsterau gyda'r contract, er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael cymorth digonol gan y rheini sydd wedi cytuno i oruchwyllo gweithgareddau. Lle mae'r gydymffurfiaeth gan y plentyn wedi bod yn eithriadol, bydd cyfle yn y cyfarfod cynnydd i gydnabod ac ategu'r cynnydd a chyfle hefyd, mewn achosion addas, i asesu a ddylai'r panel

ystyried gwneud cais i'r llys ar yr adeg berthnasol am ddirymu'r gorchymyn yn gynnar (gweler adran 9.23–9.25).

- 9.5 Gall y plentyn ofyn am gyfarfod cynnydd, un ai i amrywio'r contract neu i ofyn am ddirymu'r gorchymyn. Mae'n bwysig bod y TTI a'r panel yn sicrhau bod y plentyn yn ymwybodol o'r cyfle hwn a'i fod yn cael ei atgoffa amdano.

Diffyg cydymffurfio ac atgyfeirio yn ôl i'r llys

- 9.6 Os nad yw'r plentyn yn cydymffurfio â'r contract, er enghraifft drwy fethu â dod i gyfarfod o'r panel neu gwblhau gweithgareddau'r contract yn foddhaol, rhaid i weithiwr achos y TTI gymryd camau priodol. Bydd hyn yn golygu gwneud ymholiadau, un ai drwy ymweld neu wneud galwad ffôn neu anfon neges testun, e-bost neu lythyr ar y cyfle cyntaf posibl i gael gwybod a oes rheswm derbyniol am y diffyg cydymffurfio, yn unol â gweithdrefnau lleol ar gydymffurfio.
- 9.7 Lle mae'r esboniad yn annerbyniol, **dylid** rhoi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol ar unwaith. Lle rhoddwyd dau rybudd ffurfiol a bod methiant annerbyniol pellach i gydymffurfio, cynghorir gweithiwr achos y TTI i atgyfeirio achos y plentyn yn ôl i'r panel troseddwy'r ifanc, oni bai fod amgylchiadau sy'n lleihau bai. Dylai wneud hyn ar ôl cael cytundeb gan ei reolwr llinell.
- 9.8 Rhaid galw cyfarfod o'r panel cyn gynted ag y gellir. Pwrpas y cyfarfod hwn fydd defnyddio'r broses adferol i gael gwybod gan y plentyn beth yw'r rhesymau sylfaenol am fethu â chydymffurfio ac, os yw'n briodol, ystyried sut y gall y TTI ailymgysylltu ag ef. Gall y panel ystyried hefyd sut bydd y prif ofalwr yn gallu helpu'r plentyn i gydymffurfio. Yn y pen draw, bydd y panel yn penderfynu a fydd yn atgyfeirio achos y plentyn yn ôl i'r llys neu'n trefnu cymorth ychwanegol a fydd yn galluogi'r plentyn i gwblhau'r contract yn llwyddiannus. Gellir ailadrodd y broses hon os bydd angen er mwyn hybu cydymffurfio gan y plentyn.
- 9.9 Dylai'r panel gael gwybod am unrhyw newidiadau diweddar yn amgylchiadau bywyd y plentyn a all effeithio ar gydymffurfio, dylai asesu a yw'r TTI neu asiantaethau eraill wedi darparu'r cymorth sydd ei angen ar y plentyn a dylai gael gwybod gyda chymorth y plentyn a'i riant/gofalwr pa gymorth sydd ei angen arno i allu cydymffurfio yn y dyfodol.
- 9.10 Mewn rhai achosion, gall y panel gytuno bod y contract yn rhy ymestynnol fel ei bod yn rhy anodd cydymffurfio ag ef, a dylai ystyried amrywio'r contract. Dylid rhoi gwybod i'r plentyn, ei riant/gofalwr a gwasanaethau cymorth perthnasol am unrhyw amrywiad neu drafodaeth gan y panel am gydymffurfiaeth a'i chanlyniadau.
- 9.11 Fodd bynnag, os yw'r plentyn yn amharod i drafod ei ddiffyg cydymffurfio a/neu ddilyn cynllun newydd ar ôl cyfarfod y panel, yna dylid ystyried dod ag achos y plentyn yn ôl i'r llys er mwyn ystyried ailddefnyddio. Mewn achosion o'r fath, rhaid egluro rhesymau'r panel dros atgyfeirio'r achos yn ôl i'r llys mewn adroddiad ysgrifenedig i'r llys a fydd yn cael ei baratoi gan y TTI. Dylid rhoi gwybod i'r llys am gydymffurfio llwyddiannus â'r contract yn ogystal â meysydd lle na chafwyd cydymffurfio. Rhaid i'r TTI adrodd i'r llys ar achos a atgyfeiriwyd yn ôl cyn gynted ag y gellir. Y llys priodol fydd y llys ieuencid neu, os yw'r plentyn wedi cyrraedd 18 oed, llys ynadon oedolion. Bydd y llys yn ei gwneud yn ofynnol i'r plentyn ddod i'r

gwrandawriad drwy godi gwŷs neu warant. Yn achos yr olaf, yr heddlu sy'n gyfrifol am weithredu'r warant.

- 9.12 Yn y gwrandawriad, bydd y llys yn ystyried amgylchiadau'r atgyfeirio yn ôl, ac yn gwneud canfyddiad ffeithiol mewn perthynas â'r adroddiad a gyflwynwyd gan y TTI. Dylai'r TTI roi gwybod am y canlyniad i'r panel a hefyd, os yw'n briodol, i'r dioddefwr.
- 9.13 Lle mae'r llys wedi'i fodloni bod cyfiawnhad dros atgyfeirio'r achos yn ôl, gellir dirymu'r Gorchymyn Atgyfeirio ac ailddedfrydu'r plentyn, gan ddewis o'r holl opsiynau dedfrydu sydd ar gael a fyddai wedi bod ar gael i'r llys a oedd wedi'i ddedfrydu'n wreiddiol. Wrth ddod i'w benderfyniad ar ailddedfrydu, bydd y llys yn ystyried adroddiad y TTI, ac yn ystyried i ba raddau y mae'r plentyn wedi cydymffurfio â'r contract eisoes. Mae hawl i apelio i Lys y Goron yn erbyn unrhyw ddedfryd a roddir.
- 9.14 Lle mae'r llys yn dod i'r casgliad nad oedd cyfiawnhad dros atgyfeirio'r achos yn ôl, neu os cafwyd diffyg cydymffurfio ond ei fod yn penderfynu peidio â dirymu'r gorchymyn, bydd yn ofynnol i'r panel troseddwr ifanc a'r TTI barhau â'r contract presennol. Lle nad oes contract, dylid galw cyfarfod o'r panel fel pe na byddai'r achos wedi cael ei atgyfeirio yn ôl i'r llys. Bydd unrhyw gontract a gytunwyd cyn atgyfeirio yn ôl i'r llys yn parhau mewn grym yn ystod yr achos llys.
- 9.15 Yn ogystal â hyn, mae dau ddewis ychwanegol ar gael i'r llys yn lle dirymu am dor-contract lle mae'r llys yn canfod na chydymffurfiwyd â thelerau contract y troseddwr ifanc. Y rhain yw gosod dirwy o £2500 ar y mwyaf ar y plentyn neu estyn cyfnod contract y troseddwr ifanc i 12 mis ar yr hiraf. Nid yw'r pŵer i'r llys estyn cyfnod contract y troseddwr ifanc yn un sydd ar gael os yw'r Gorchymyn Atgyfeirio eisoes wedi dod i ben, er bod pŵer o hyd gan y llys i ddirywo'r plentyn. Rhaid i'r plentyn fod yn bresennol er mwyn i'r llys osod dirwy neu estyn cyfnod contract y troseddwr ifanc am dorri contract o dan Orchymyn Atgyfeirio.
- 9.16 Bydd pwerau'r llys i osod dirwy neu estyn cyfnod contract y troseddwr ifanc am dorri contract o dan Orchymyn Atgyfeirio yn gymwys yn yr amgylchiadau canlynol:
- Ile mae achos y plentyn wedi'i atgyfeirio i'r llys am fethu â bod yn bresennol mewn unrhyw ran o gyfarfod o'r panel (adran 22(2) (b) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol 2000);
 - Ile mae'r plentyn, ar ôl cyfarfod cynnydd gyda'r panel troseddwr ifanc, yn cael ei atgyfeirio'n ôl i'r llys lle mae'n ymddangos i'r panel fod y plentyn wedi torri telerau contract y troseddwr ifanc (adran 26(5) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol 2000); neu
 - Ile mae'r panel yn penderfynu yn y cyfarfod terfynol nad yw cydymffurfiaeth y plentyn â thelerau'r contract wedi cyfiawnhau dod i'r casgliad bod y plentyn wedi cwblhau'r contract yn foddhaol (adran 27(4) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol 2000).
- 9.17 Pan dorri'r contract a bod y Gorchymyn Atgyfeirio yn cael ei ddirymu wedyn, dylid sicrhau bod barn y dioddefwr yn hysbys cyn y toriad. Os dirymir Gorchymyn Atgyfeirio, yna dylai'r dioddefwr gael mynegi barn ynghylch sut mae hynny'n effeithio ar unrhyw gamau uniongyrchol i gyfryngu neu wneud iawn y mae'n cymryd rhan ynddynt, gan fod angen cael cydsyniad ganddo i gymryd rhan mewn unrhyw gyfryngu/gwneud iawn.

Estyn cyfnod y gorchymyn er mwyn cyfiawnder

- 9.18 Lle nad yw'r plentyn wedi gallu cydymffurfio â'r gorchymyn o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth, er enghraifft, salwch neu farwolaeth yn y teulu agos, gall y panel ddymuno atgyfeirio'r achos yn ôl i'r llys er mwyn gofyn am estyn cyfnod y contract er mwyn cyfiawnder am hyd at 3 mis, yn ddarostyngedig i'r terfyn o gyfanswm o 12 mis ar gyfer gorchymyn.
- 9.19 Pan fydd cyfnod y gorchymyn yn cael ei estyn er mwyn cyfiawnder, ni chaiff cyfnod yr estyniad fod yn fwy na thri mis ac ni chaiff y cyfnod cyfan fod yn fwy na 12 mis (paragraff 9ZD o Atodlen 1 i Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol 2000). Dylid nodi, er hynny, lle mae achos yn cael ei atgyfeirio i'r llys am estyniad er mwyn cyfiawnder, mai hwn fydd yr unig opsiwn a fydd ar gael i'r llys; ni fydd pŵer ganddo i ddirymu'r gorchymyn ac aildeddfrydu'r plentyn.

Amrywio'r contract

- 9.20 Gellir gofyn am amrywio'r contract am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:
- anhawster ag elfen benodol yn y contract;
 - newid mewn amgylchiadau sy'n peri bod rhyw agwedd ar y contract yn anodd cydymffurfio â hi (er enghraifft, dechrau cwrs newydd mewn addysg neu gyflogaeth a fyddai'n gwrthdaro â'r cyfarfodydd neu weithgareddau a raglennwyd);
 - cred y byddai'r contract, o gydymffurfio'n lwyr ag ef, yn annerbyniol o feichus; ac
 - ymateb i ddymuniadau ac anghenion y dioddefwr, os nad oeddent yn hysbys i gyfarfod cychwynnol y panel.
- 9.21 Dylai'r panel drafod y rheswm dros y cais i amrywio'r contract gyda'r plentyn. Os cytunir mai priodol fydd ei amrywio, dylid cytuno ar gontract diwygiedig. Fodd bynnag, mae'n bwysig na fydd y rhaglen o weithgareddau i atal aildroseddu a gwneud iawn i'r dioddefwr neu i'r gymuned ehangach yn cael ei thanseilio gan unrhyw amrywio, felly mewn rhai achosion bydd yn rhaid ystyried ymyriadau gwahanol. Dylai'r contract diwygiedig gael ei esbonio mewn iaith glir a chael ei lofnodi gan y plentyn a'r panel. Wedyn dylid darparu copi o'r contract i'r plentyn i'w gadw.
- 9.22 Gall y TTI hefyd amrywio lefel y cyswllt gan y TTI, gan ei chynyddu neu ei gostwng yn dilyn newid mewn amgylchiadau ac asesiad wedyn o anghenion a'r risg debygol i bobl eraill.

Dirymu'r gorchymyn er mwyn cyfiawnder

- 9.23 Gellir dirymu Gorchymyn Atgyfeirio yn gynnar lle gwneir hynny er mwyn cyfiawnder. Nid yw hyn yn debygol o fod o fudd i gyfiawnder os caiff ei wneud cyn cyrraedd hanner ffordd drwy gyfnod y gorchymyn. Y rheswm am hyn yw ei bod yn annhebygol y bydd holl elfennau'r contract wedi'u cwblhau'n llwyddiannus yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y weithdrefn ar gyfer dirymu'n dechrau drwy wneud argymhelliad gan y panel mewn cyfarfod cynnydd. Bydd y panel yn llunio adroddiad ysgrifenedig

a gytunir gan yr holl bartïon sy'n bresennol a rhoddir yr adroddiad hwn i'r TTI a fydd wedyn yn gwneud cais ffurfiol i'r llys.

9.24 Nid yw'n bosibl rhestru'r holl amgylchiadau lle gall fod yn briodol dirymu gorchymyn yn gynnar. Fodd bynnag, fe all yr enghraifft ganlynol gynnig rhywfaint o eglurhad, yn amodol ar amgylchiadau eraill yr achos:

- a) mae holl elfennau'r contract wedi'u cwblhau'n llwyddiannus a/neu cafwyd cynnydd rhagorol ar ei gwblhau; a
- b) mae'r plentyn wedi dangos cynnydd parhaus a sylweddol tuag at fyw bywyd cadarnhaol a chynhyrchiol ac yn unol â hynny aseswyd bod y tebygolrwydd o ailddoseddu yn isel.

9.25 Lle mae'r llys yn penderfynu, ar ôl cael cais o'r math a ddisgrifiwyd yn y paragraffau uchod, nad yw dirymu o fudd i gyfiawnder, bydd yn ofynnol i'r TTI a'r panel barhau â'r gorchymyn presennol ac ni chânt wneud cais pellach o'r math hwn cyn pen tri mis, ac eithrio lle mae'r llys yn cydsynio i hynny.

Dirymu'r gorchymyn oherwydd newid mewn amgylchiadau

9.26 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y plentyn wneud cais i'r panel am ddirymu'r gorchymyn. Er enghraifft, gall hyn ddigwydd lle cafwyd newid yn amgylchiadau'r plentyn fel mudo i wlad dramor a fyddai'n golygu ei bod yn amhosibl cydymffurfio â'r contract. Dylai'r panel drafod y cais am ddirymu'r gorchymyn gyda'r plentyn. Lle cytunir bod dirymu'r gorchymyn yn briodol, ac na fyddai amrywio'r contract yn ddigon, dylid atgyfeirio achos y plentyn yn ôl i'r llys er mwyn i'r llys ystyried dirymu'r gorchymyn ac ailddedfrydu'r plentyn.

Trosedd pellach yn ystod cyfnod y Gorchymyn Atgyfeirio

9.27 Os ceir y plentyn yn euog o drosedd arall yn ystod cyfnod y Gorchymyn Atgyfeirio gwreiddiol, gall y llys ei ddedfrydu drwy estyn cyfnod y Gorchymyn Atgyfeirio presennol. Gall y llys estyn cyfnod y Gorchymyn Atgyfeirio presennol hefyd wrth ddelio â throsedd pellach a gyflawnwyd ar ôl gwneud y Gorchymyn Atgyfeirio gwreiddiol.

9.28 Yn y ddau achos, rhaid i'r gorchymyn gwreiddiol fod yn un am lai na 12 mis a rhaid i'r plentyn fod o dan 18 mlwydd oed.

9.29 Fel arall, gall y llys ddewis gosod gorchymyn gwahanol, er enghraifft, gorchymyn adsefydlu ieuencid. Wrth wneud hynny, nid yw'n ofynnol i'r llys ryddhau'r Gorchymyn Atgyfeirio. Er hynny, gall y llys arfer disgrisiwn i ddirymu Gorchymyn Atgyfeirio os yw'n credu bod hynny o fudd i gyfiawnder. Gallai'r disgrisiwn hwn gael ei arfer gan y llys sy'n gosod y gorchymyn adsefydlu ieuencid, neu gallai gael ei arfer gan lys arall ar ôl gosod y gorchymyn adsefydlu ieuencid (yn unol â'r pwerau yn Neddff Pwerau Llysoedd Troseddol 2000).

9.30 Os yw trosedd pellach wedi'i gyflawni a bod cyfnod y Gorchymyn Atgyfeirio wedi'i estyn ond y contract heb gael ei lofnodi eto, dylid prysuro i wneud hynny a chynnal cyfarfod o'r panel yn ddi-oed.

- 9.31 Mae pŵer gan y llys hefyd i estyn cyfnod ail Orchymyn Atgyfeirio neu un dilynol mewn perthynas â throeddau ychwanegol neu bellach yn yr un modd â'r Gorchymyn Atgyfeirio gwreiddiol.
- 9.32 Ni chaiff cyfnod cyfan y Gorchymyn Atgyfeirio fod yn fwy na 12 mis.
- 9.33 Dylai TTIau ddatblygu canllawiau clir a chryno ar ffyrdd posibl i reoli nifer o Orchymynion Atgyfeirio estynedig. Dylai TTIau sicrhau bod y gwaith presennol ar gyfer dioddefwyr a gwneud iawn yn parhau ac na fydd hyn yn effeithio arno.
- 9.34 Dylid cysylltu ac ymgynghori ag unrhyw ddioddefwyr i'r troeddau newydd, a chynnig cyfle iddynt gymryd rhan ym mhroses y panel yn y ffordd arferol.
- 9.35 Lle mae'r llys yn penderfynu peidio â gorchymyn rhyddhau amodol neu ddiamod, mae ganddo bŵer disgresiynol i'w arfer er mwyn cyfiawnder i ddirymu Gorchymyn Atgyfeirio presennol am droeddau pellach neu ychwanegol. Gall y llys gyfarwyddo na fydd contract newydd y troeddwr ifanc yn dod i rym nes bydd y gorchymyn cynharach wedi'i ddirymu neu ei gwblhau, gan fod hyn yn rhoi'r gallu i gwblhau'r Gorchymyn Atgyfeirio presennol ac unrhyw raglen gysylltiedig ar gyfer cyfiawnder adferol.
- 9.36 Bydd pŵer gan y llys o hyd i ddirymu'r gorchymyn gwreiddiol ac unrhyw orchymynion. Cyn gynted ag y bydd y gorchymyn gwreiddiol wedi'i ddirymu, bydd proses y Gorchymyn Atgyfeirio ar ben. Bydd yn bwysig bod y TTI yn sicrhau bod aelodau'r panel a, lle y bo'n briodol, y dioddefwr yn cael eu hysbysu o fewn cyfnod rhesymol am unrhyw ddirymu, a'u bod yn cael esboniad byr o'r amgylchiadau.
- 9.37 Wrth ddedfrydu am y troedd pellach, gall y llys ailddedfrydu hefyd am droedd y Gorchymyn Atgyfeirio gwreiddiol. Rhaid i'r llys ystyried i ba raddau y mae'r plentyn wedi cydymffurfio â'r contract eisoes.
- 9.38 Dylai TTIau sicrhau y bydd unrhyw waith ar gyfer cyfiawnder adferol neu waith gyda dioddefwyr o dan y Gorchymyn Atgyfeirio presennol yn parhau pan osodir Gorchymyn Atgyfeirio newydd. Bydd angen i'r TTI hysbysu'r llys am y cynnydd cyfredol ar y Gorchymyn presennol ac a oes gwaith yn parhau ar gyfer cyfiawnder adferol neu wneud iawn.
- 9.39 O safbwynt gweinyddol, gall y panel gynnal cyfarfod cychwynnol o'r panel ar gyfer y Gorchymyn Atgyfeirio newydd cyn rhyddhau'r Gorchymyn Atgyfeirio presennol (er mwyn ceisio sicrhau na fydd bwlch rhwng yr hen contract a'r contract newydd). Gellir llofnodi'r contract ond gellir cynnwys adran yn y contract newydd lle mae'r dyddiad y bydd yn dod i rym yn cael ei ddatgan.

Trosglwyddo'r Gorchymyn i'r Gwasanaeth Prawf pan fydd plentyn yn cyrraedd 18 mlwydd oed

- 9.40 Pan fydd plentyn sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Atgyfeirio yn cyrraedd 18 mlwydd oed, gall TTIau gytuno i elfennau'r Gorchymyn gael eu goruchwyllo gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol. Pa un a fydd elfennau o'r Gorchymyn Atgyfeirio yn cael eu goruchwyllo gan gydweithwyr yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu mewn Cwmni Adsefydlu Cymunedol neu beidio, bydd y TTI yn cadw'r ddyletswydd statudol i weithredu'r Gorchymyn a

gwneud trefniadau i oruchwylio cydymffurfiaeth neu ddiffyg cydymffurfiaeth y plentyn â thelerau'r contract.

- 9.41 Dylid gwneud penderfyniadau ar sail yr amgylchiadau penodol ym mhob achos ac rydym yn argymhell bod TTlau yn datblygu protocol lleol gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol sy'n cynnwys delio â Gorchmynion Atgyfeirio .

Mae rhagor o fanylion ar gael am drosglwyddo Gorchmynion Atgyfeirio yn Lloegr yn y Protocol Cenedlaethol ar y Cyd ar gyfer Pontio yn Lloegr.²⁰ Mae canllawiau ar wahân ar gyfer Cymru.²¹

²⁰ <https://www.gov.uk/government/publications/joint-national-protocol-for-transitions-in-england>

²¹ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/434127/Youth_to_Adult_Transition_Principles__Wales_.pdf

10. Cyfarfodydd terfynol

- 10.1 Rhaid cynnal cyfarfod terfynol yn ystod y mis olaf yng nghyfnod y contract a dylid ei alw ychydig cyn i'r gorchymyn ddod i ben. Yn y cyfarfod hwn, dylai'r panel adolygu'r cydymffurfio a'r ymgysylltu gan y plentyn ag elfennau'r gorchymyn a chynnig adborth iddo.
- 10.2 Yn yr un modd â chyfarfodydd cynnydd, mae'n bosibl na fydd yn angenrheidiol i'r holl gyfranogwyr gwreiddiol (ac eithrio'r rheini a gafodd orchymyn gan y llys i fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y panel) fod yn bresennol yn y cyfarfod terfynol, ond bydd yn ddymunol i o leiaf un o'r aelodau panel gwreiddiol fod yn bresennol.
- 10.3 Lle mae'r panel wedi'i fodloni bod y plentyn wedi cydymffurfio'n llwyr â'r gorchymyn, bydd y gorchymyn yn cael ei ryddhau ar ddiwedd ei gyfnod. Gall y panel wneud y penderfyniad hwn hyd yn oed os nad yw'r plentyn wedi gallu dod i'r cyfarfod, ond ei fod wedi cydymffurfio'n llwyddiannus fel arall â thelerau'r contract. O dan delerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, bydd euogfarn y Gorchymyn Atgyfeirio wedi'i disbyddu cyn gynted ag y bydd y gorchymyn wedi'i gwblhau (gweler paragraffau [3.42–3.47](#)).
- 10.4 Os nad yw'r panel wedi'i ddarbwyllio bod y plentyn wedi cwblhau'r gorchymyn yn llwyddiannus, rhaid atgyfeirio achos y plentyn yn ôl i'r llys er mwyn ystyried ei ailddedfrydu. Rhaid darparu penderfyniad y panel mewn ysgrifen i'r llys ac i'r plentyn.
- 10.5 Dylai'r TTI ddarparu llythyr neu dystysgrif cwblhau pan fydd y contract wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Lle mae dioddefwyr wedi rhoi gwybod eu bod yn dymuno cael eu hysbysu am ddatblygiadau, dylid eu hysbysu am y canlyniad. Yn yr un modd, gellir hysbysu'r fainc dedfrydu hefyd.



© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i'r Bwrdd Cyfiawnder
leuenctid.Enquiries@yjb.gsi.gov.uk a rhif ffôn: 020 3334
5300